



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coetiroedd i Gymru

Strategaeth Llywodraeth Cymru
ar gyfer Coetiroedd a Choed

Ffotograffau

Mae pob delwedd dan Hawlfraint y
Goron o Lyfrgell Lluniau'r Comisiwn
Coedwigaeth oni nodir fel arall.

Llun y Clawr

Coed y Brenin

Rhagair gan y Gweinidog



Rwy'n croesawu'r uchelgais feiddgar a nodir yn y Strategaeth hon. Mae'n cyd-fynd â'r cyfleoedd amrywiol y mae ein coetiroedd a'n coed yn eu cynnig a'r rhan hanfodol y maent yn ei chwarae yn ein bywydau. Ar yr amod y cânt eu rheoli'n ofalus ac mewn ffordd gynaliadwy, maent yn rhoi cysgod i dda byw, yn lleihau llygredd sŵn, yn arafu llifddyfroedd ac yn gwella ansawdd aer, pridd a dŵr. Maent yn hafanau i fioamrywiaeth ac yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd hamdden a ffordd o wella ein hiechyd a'n lles yn gyffredinol.

Mae'r cynhyrchion pren a'r cynhyrchion nad ydynt wedi'u gwneud o bren o'n coetiroedd yn adnoddau adnewyddadwy allweddol sy'n cyfrannu at sicrhau ffyniant i bawb. Mae angen mwy ohonynt arnom, er mwyn helpu i sicrhau cynaliadwyedd ein diwydiannau a chyfrannu at economi gylchol.

Er mwyn sicrhau ffyniant i bawb, mae'n rhaid inni blannu mwy o goed. Mae'r Strategaeth hon yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer y math o goed a choetiroedd yr hoffem eu gweld. Mae'n nodi ein polisiâu ar gyfer coetir yn glir iawn a bydd yn ein galluogi i wneud penderfyniadau deallus ynghylch ble i blannu'r coetiroedd a'r coed newydd sydd eu hangen arnom.

Rwy'n benderfynol y bydd Llywodraeth Cymru yn ateb yr heriau a ddisgrifir gan y Strategaeth. Rwy'n croesawu'r cyngor parhaus gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ac rwy'n ddiolchgar i'r Panel Cyngori ar y Strategaeth Goetiroedd sydd wedi cyd-gynhyrchu'r Strategaeth.

Gwn mai drwy gydweithio yng Nghymru yr ydym yn mynd ati orau i wireddu'n huchelgeisiau ar gyfer ein pobl, ein cymunedau a'n gwlad orau. Gan edrych i'r dyfodol, rwyf am weld cydweithredu agosach rhwng Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'n partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau a ddisgrifiwn yma.

Rydym yn wynebu newid na welwyd mo'i debyg o'r blaen i'n cymunedau gwledig wrth inni adael yr Undeb Ewropeaidd. Yn wyneb yr ansicrwydd hwnnw mae'n bwysig ein bod yn glir ynglŷn â'n huchelgais a'n nodau ar gyfer coetiroedd a choed. Mae'r Strategaeth hon yn feincnod pwysig inni allu monitro'r cynnydd rydym yn ei wneud wrth inni ddatblygu dulliau gweithredu newydd i'w cefnogi ar gyfer defnydd tir.

Ar ddechrau'r mileniwm hwn, nododd Llywodraeth Cymru weledigaeth hirdymor ar gyfer coetir yng Nghymru. Mae ein gweledigaeth, a nodir yn y Strategaeth hon, wedi dal prawf amser dros y 18 mlynedd diwethaf ac rwy'n ei chymeradwyo i chi unwaith eto. Cyfrifoldeb pob un ohonom sy'n gweithio, yn byw, yn dysgu ac yn ymweld â choetiroedd yng Nghymru yw sicrhau y caiff ei gwireddu.

Hannah Blythyn

Gweinidog dros yr Amgylchedd



Betws-y-coed o Glogwyn Cyrau

1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd strategaeth gyntaf *Coetiroedd i Gymru* yn 2001 ac mae wedi pennu'r cyfeiriad strategol i goedwigaeth yng Nghymru ers bron 20 mlynedd. Dros y cyfnod hwnnw mae consensws cryf wedi dod i'r amlwg bod y weledigaeth a nodir yn y strategaeth yn gadarn a bod coetiroedd a choed yn hanfodol i gynnal yr amgylchedd ehangach, drwy gynnig cyfleoedd i bobl a chymunedau a gwella bywydau pawb yng Nghymru.

Yn sgil datblygu'r ail argraffiad o'r strategaeth, daethpwyd i gydnabod fwyfwy y bygythiad gan newid yn yr hinsawdd a chyhoeddwyd y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru yn 2006. O ganlyniad i'r methiant i gyflawni ymrwymadau o dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a gwella cyflwr yr amgylchedd yng Nghymru cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad strategol o'n dull gweithredu drwy Raglen Cymru Fyw a fu ar waith rhwng 2012 a 2013. Arweiniodd hyn at sefydlu corff newydd, sef Cyfoeth Naturiol Cymru, a ddygodd ynghyd y rhan fwyaf o swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth. Wedyn pasiodd y Cynulliad Cenedlaethol ddau ddarn pwysig o ddeddfwriaeth, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Felly, mae'n bryd sicrhau bod *Coetiroedd i Gymru* a'r weledigaeth hirdymor y mae'n ei disgrifio, yn wirioneddol addas ar gyfer y dyfodol ac y gellir eu datblygu'n hyderus drwy'r fframwaith deddfwriaethol newydd hwn.

Mae'r argraffiad hwn o *Coetiroedd i Gymru* wedi'i ddiwygio ac wedi'i ddiweddarau gan ystyried ein Polisi Adnoddau Naturiol newydd ond mae'n cadw elfennau craidd y strategaeth. Maent wedi bod yn gadarn ac nid oes angen eu newid yn sylweddol. Yn lle hynny, rydym wedi canolbwyntio ar adolygu'r dystiolaeth sy'n sail i'r polisiâu

a nodir yn y strategaeth hon. Rydym hefyd wedi diwygio ac wedi diweddarau'r bennod ar gyflawni. Rydym wedi dileu cyfeiriadau a'r wybodaeth nad ydynt yn gyfredol mwyach ac wedi esbonio sut rydym yn bwriadu cyflawni'r polisiâu hyn yn y dyfodol.

Yn fuan ar ôl i'r argraffiad diwethaf fynd i'r wasg, ymrwymodd Gweinidogion Cymru i bolisi uchelgeisiol i gynyddu arwynebedd coetiroedd er mwyn darparu mwy fyth o wasanaethau i bobl Cymru. Mae sicrhau'r cynnydd hwn yn arwynebedd y coetir wedi bod yn anodd.

Mae ein polisi ar hyn yn dal i fod yn glir. Mae achos cryf dros ehangu coetiroedd a rheoli coetiroedd yn dda. Mae'r strategaeth hon yn nodi'r math o goetir yr hoffem ei weld, gan adeiladu ar y blaenoriaethau yn ein Polisi Adnoddau Naturiol sy'n cynnwys helpu i ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth er mwyn cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau Cymru a sicrhau mwy o orchudd coed a choetir wedi'i leoli'n dda, er enghraifft ger trefi a dinasoedd lle y bydd yn fwyaf gwerthfawr o ran darparu gwasanaethau hamdden a gwasanaethau ecosystemau. Mae'r strategaeth yn disgrifio'r canlyniadau yr hoffem i'n coetiroedd eu cyflawni ac mae'n sylfaen allweddol a fydd yn dangos inni sut a ble i'w cyflawni. Ein nod yw sicrhau cyfradd blannu o 2,000ha y flwyddyn o leiaf o 2020 ymlaen, a argymhellwyd inni gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU a thros amser gynyddu gweithgarwch plannu i lefelau sy'n galluogi Cymru i gyflawni'r rhwymedigaeth gyfreithiol y gwnaethom ymrwymo iddi drwy Basio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i leihau allyriadau 80% o'u lefelau cyn 1990 erbyn 2050.

Ers yr ail argraffiad, mae wedi dod yn gliriach fyth bod gan goetiroedd rôl allweddol i'w chwarae wrth ddisodli tanwyddau ffosil, storio carbon a'n helpu i ymdopi ag effeithiau hinsawdd sy'n newid. Mae'n disgrifio'r math o goetir yr hoffem ei weld a'r dystiolaeth ar gyfer

y manteision a fydd yn deillio o goetiroedd. Mae'n ceisio ehangu ymgysylltiad pobl â choetiroedd a choed er mwyn sicrhau bod yr ystod lawn o gyfleoedd a gwasanaethau ar gael i bob rhan o gymdeithas mewn ffordd deg.

Mae ein gweledigaeth yn 2018 ar gyfer yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r strategaeth 50 mlynedd hon yn union fel yr oedd yn 2001, sef:

'Bydd Cymru yn adnabyddus am ei choetiroedd o ansawdd uchel sy'n gwella'r dirwedd, sy'n briodol i amgylchiadau lleol ac sydd â chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd ac a fydd yn:

- **darparu manteision cymdeithasol a chymunedol gwirioneddol, yn lleol ac yn genedlaethol;**
- **cefnogi diwydiannau ffyniannus sy'n gysylltiedig â choetiroedd;**
- **cyfrannu at amgylchedd o ansawdd gwell drwy Gymru gyfan.'**

Nododd y Ddeddf Llesiant a Deddf yr Amgylchedd y Nodau a'r Egwyddorion Llesiant ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sy'n darparu fframwaith i brosesau gwneud penderfyniadau'r llywodraeth ac o hyn ymlaen, byddant yn sail i bopeth yr ydym ni, a'r cyhoedd, yn ei wneud. Mae *Coetiroedd i Gymru* bellach yn rhan o'r fframwaith ehangach hwn. Mae'n dal i ganolbwyntio ar goetiroedd a choed yng Nghymru fel sylfaen ar gyfer cyflawni pedair thema strategol sy'n gysylltiedig â'r Nodau a'r Egwyddorion Llesiant, sef:

- **Ymateb i newid yn yr hinsawdd** – ymdopi â newid yn yr hinsawdd a helpu i leihau ein hól troed carbon; helpu i sicrhau bod Cymru yn gymdeithas arloesol, gynhyrchol a charbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang.

- **Coetiroedd i bobl** – diwallu anghenion lleol o ran iechyd, addysg a swyddi; galluogi Cymru i fod yn gymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol; sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau; a sicrhau bod gennym gymunedau atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.

- **Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig** – diwydiannau sgil uchel, arloesol sy'n cyflenwi cynhyrchion adnewyddadwy o Gymru; helpu Cymru i ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith boddhaol.

- **Ansawdd amgylcheddol** – gwneud cyfraniad cadarnhaol at fioamrywiaeth, tirweddau a threftadaeth a lleihau pwysau amgylcheddol eraill; er mwyn sicrhau ein bod yn genedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Gall coetiroedd a choed sicrhau'r manteision hyn, ar yr un pryd ac yn yr un lle, ac maent yn gwneud hynny. Rydym yn ystyried bod hyn yn rhinwedd a'r egwyddor hon o fanteision lluosog wrth sydd wraidd ein strategaeth.

Ar y tudalennau canlynol, rydym yn nodi ein 20 canlyniad lefel uchel sy'n sefydlu coetiroedd a choed yng Nghymru a'r pedair thema strategol. Rydym yn esbonio pam mae pob un o'r canlyniadau hyn yn bwysig, yr hyn yr hoffem ei weld yn digwydd ac rydym yn crynhoi sut rydym yn bwriadu cyflawni'r canlyniadau hyn. Wrth wneud hynny, rhaid inni nawr gymhwyso Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy er mwyn inni ystyried effeithiau hirdymor yr hyn rydym yn ei wneud, gweithredu er mwyn atal niwed amgylcheddol cyn iddo ddigwydd, integreiddio ein prosesau cyflawni ledled Cymru, cydweithio ag eraill a chynnwys pobl yn y gwaith o'u cyflawni.

Gair am Reoli Coedwigoedd yn Gynaliadwy ...

Datblygwyd y cysyniad o reoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn ystod y 1980au ac ym 1993 fe'i diffiniwyd ym mhroses Forest Europe, y mae'r DU wedi'i llofnodi, fel:

'Stiwardiaeth a'r defnydd o goedwigoedd a thir coedwigoedd mewn ffordd, ac ar gyfradd, sy'n cynnal eu bioamrywiaeth, cynhyrchiant, gallu i adfywio, bywiogrwydd a photensial i gyflawni, yn awr ac yn y dyfodol, swyddogaethau ecolegol, economaidd a chymdeithasol perthnasol, ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang, ac nad yw'n achosi difrod i ecosystemau eraill'.

Yng Nghymru a ledled y DU mae'r cysyniad hwn wedi'i ymgorffori yn Safon Coedwigaeth y DU a'i chyfres o ganllawiau a chanllawiau arfer cysylltiedig. Diweddarwyd y Safon yn 2017 ac mae'n darparu sylfaen gadarn sy'n cyd-fynd â'r nod o sicrhau y caiff adnoddau naturiol eu rheoli'n gynaliadwy. Mae'r argraffiad newydd hwn o *Coetiroedd i Gymru* yn adeiladu ar y cysyniadau hyn o gynaliadwyedd ac yn nodi ein fframwaith polisi coetiroedd i Gymru.



2. Coetiroedd a choed yng Nghymru

Mae a wnelo *Coetiroedd i Gymru* â'r holl goetiroedd sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd, a'r rhai a gaiff eu creu yn y dyfodol, ni waeth beth fo'u maint, eu lleoliad na'u perchenogaeth, ynghyd â'r holl goed y tu allan i goetir, mewn ardaloedd gwledig a threfol. Gyda'i gilydd, mae'r coetiroedd a'r coed hyn yn ffurfio adnodd coedwigoedd Cymru, y gellir ei ddefnyddio a'i ddatblygu er mwyn diwallu anghenion cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol Cymru a'i phobl.

Mae Cymru yn un o'r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop, gyda dim ond 15% o'r arwynebedd tir yn cael ei orchuddio gan goetir, o gymharu â chyfartaledd yr UE, sef 38%. Mae defnydd tir hanesyddol a pholisi llywodraethau blaenorol wedi dylanwadu ar gymeriad coetir yng Nghymru ac erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o goetir naill ai'n:

- goetir coniferaidd yn bennaf, gyda chymysgedd o:
 - gellioedd sy'n cael eu trawsnewid a'u hadfer er mwyn amrywio rhywogaethau a strwythur;
 - cellioedd un rhywogaeth lle mae'r coed fwy neu lai o'r un oedran, a grëwyd yn ystod yr 20fed ganrif ac sydd wedi'u rheoli, ar y cyfan, drwy lwyrgwmpo. Ar hyn o bryd nhw yw prif ffynhonnell pren a gynhyrchir yn y wlad hon;

neu'n

- goetir brodorol, sy'n fach ac yn dameidiog gan mwyaf. Yn aml fe'i ceir ar ffermydd ac nid yw llawer ohono'n cael ei reoli'n weithredol. Nid yw'r holl goetir brodorol yn hen, ond mae cyfran sylweddol ohono wedi bod yn goediog yn barhaus ers o leiaf 400 o flynyddoedd (gan gynnwys rhai ardaloedd o goetir lle mae'r coed brodorol wedi'u disodli gan rywogaethau estron a blannwyd yn fwy diweddar). Pe collid y coetir hynafol hwn byddai'n diflannu am byth.


Rydym ni, Llywodraeth Cymru, yn berchen ar tua dwy ran o dair o'r coetir coniferaidd (gan gynnwys coetir a blannwyd ar safleoedd coetir hynafol), ac un rhan o bump o'r coetir brodorol a chyfran lai o'r coetir lled-naturiol hynafol.

Amcangyfrif bod 92,700 hectar ychwanegol o orchudd coed y tu allan i goetiroedd yng Nghymru. Mae mwy na hanner y coed hyn yn tyfu ar hyd nodweddion llinellol megis gwrychoedd, glannau afonydd ac ochrau ffyrdd, tra bo'r gweddill i'w gweld mewn perllannau, parciau, porfeydd coediog ac ardaloedd trefol.


Coetiroedd a choed yw'r sylfaen sy'n cefnogi holl themâu eraill *Coetiroedd i Gymru*. Mae eu natur, eu hansawdd a'u dosbarthiad a'r gwaith o'u rheoli yn sail i'r strategaeth gyfan, ac rydym wedi nodi chwe chanlyniad allweddol er mwyn atgyfnerthu'r sylfaen hon a sicrhau y bydd yn addas i ddiwallu anghenion Cymru am yr 50 mlynedd nesaf:

- Mae mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.
- Mae ecosystemau coetiroedd yn iach ac yn gydnerth.
- Mae coetiroedd wedi'u haddasu'n well er mwyn cynnig ystod eang o fanteision.
- Mae gorchudd coetir yng Nghymru'n cynyddu.
- Mae cysylltiad agosach rhwng gweithgarwch rheoli coetiroedd a choed a defnyddiau tir eraill.
- Mae coetiroedd a choed trefol yn cynnig ystod eang o fanteision.

Ffigur 1: Perchenogaeth ar Goetir 2016



Ffigur 2: Coetir Hynafol



2.1 Mae gorchudd coed yng Nghymru yn cynyddu

Nid yw cyfanswm yr arwynebedd coetir yng Nghymru wedi newid llawer yn y 30 mlynedd diwethaf, a phrin bod y 100 hectar fwy neu lai o goetir brodorol newydd a blennir bob blwyddyn, ar gyfartaledd, yn gwrthbwysu arwynebedd y coetir a gollir yn barhaol er mwyn adfer cynefinoedd neu fel rhan o waith datblygu a gymeradwywyd. Bydd y camau y byddwn yn eu cymryd er mwyn sicrhau iechyd a chydnerthedd coetiroedd, a'r camau a gymerir i adfer cynefinoedd â blaenoriaeth, yn lleihau potensial rhai coetiroedd ar raddfa leol i gynhyrchu. Er mwyn helpu i leihau'r effaith hon, rydym am weld gorchudd coetir yn cynyddu ar raddfa genedlaethol. Drwy gynyddu gorchudd coetir yn raddol yn y dyfodol, byddwn yn dangos ein hymrwymiad i'r amcan strategol pwysig o sicrhau bod potensial cyffredinol coetiroedd Cymru i gynhyrchu yn cael ei gynnal.

Mae angen mwy o orchudd coetir hefyd er mwyn helpu i wneud ein hecosystemau yn fwy cydnerth a darparu'r ystod lawn o wasanaethau ecosystemau a manteision cymunedol a ragwelir yn y strategaeth hon, a sicrhau bod coetiroedd yn cyfrannu at ein polisïau ar gyfer yr amgylchedd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Rhaid i'r holl goetir newydd hwn fod yn wirioneddol amlbwyrpas, ac mae hynny'n golygu bod angen ei gynllunio a'i sefydlu'n ofalus. Bydd effeithiau hirdymor newidiadau i'r taliadau cymorth i ffermydd

yn dylanwadu ar faint o dir newydd a gaiff ei gynnig ar gyfer creu coetiroedd, yn ogystal â'r graddau y gallwn 'brynu' gwasanaethau ecosystemau a gwasanaethau cymunedol gan berchnogion tir. Mae sicrhau y bydd gorchudd coed yn cynyddu hefyd yn golygu lleihau'r coetir a gaiff ei glirio'n ddiangen ac, weithiau, yn anghyfreithlon.

Yn aml caiff coetir ei greu drwy brosesau plannu gweithredol. Fodd bynnag, byddai coetir yn aildyfu'n naturiol dros rannau helaeth o Gymru pe caniateid i brosesau naturiol ddigwydd. Byddwn yn ystyried sut a ble y gallwn annog defnydd helaethach o brosesau naturiol dros amser er mwyn cynyddu gorchudd coetir a choed. Byddwn hefyd yn ceisio monitro newidiadau yn amlach a defnyddio technolegau newydd i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae bellach yn hanfodol cynyddu gorchudd coed er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau o ran newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio a nodir yn fanylach ym Mhennod 3. Am y rheswm hwn rydym wedi cynnwys targed penodol ar gyfer cynyddu gorchudd coetir yng Nghymru.

Ein bwriad yw sicrhau y caiff potensial cyffredinol coetiroedd yng Nghymru i gynhyrchu ei gynnal ar y lefelau presennol drwy greu coetiroedd newydd a thrwy fesurau i sicrhau bod mwy o goetiroedd yn cael eu rheoli.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Gorchudd coetir yng Nghymru'n cynyddu o leiaf 2000 hectar y flwyddyn rhwng 2020 a 2030 a thu hwnt er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r strategaeth a chynnal potensial cyffredinol coetiroedd yng Nghymru i gynhyrchu.
- Dylai gorchudd coed yn yr amgylchedd ehangach, ar ffermydd ac yn y dirwedd wledig ac mewn trefi a dinasoedd ac o'u hamgylch gynyddu hefyd.
- Blaenoriaeth yn cael ei rhoi i greu coetiroedd brodorol newydd a choetiroedd cymysg newydd a all gynnig nifer o fanteision a defnyddio gwaith plannu a phrosesau naturiol i wneud hynny.
- Y gwaith o greu coetiroedd yn cael ei lywio gan amcanion y strategaeth hon a chan yr angen i ddiogelu cynefinoedd lled-naturiol, nodweddion hanesyddol a thirweddau nodweddiadol.
- Rhagdybiaeth gref yn erbyn cael gwared ar goetiroedd yn barhaol, ac eithrio er mwyn adfer cynefinoedd agored â blaenoriaeth uchel a bodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Lle y bo angen gwneud hyn, bod cydbwysedd yn cael ei sicrhau ar lefel genedlaethol drwy greu coetiroedd yn unol â blaenoriaethau'r strategaeth hon. Yn ddelfrydol dylid gwella tirwedd ac adfer cynefinoedd drwy addasu systemau rheoli yn hytrach na chlirio coetir.
- Pan ganiateir clirio coetir yn barhaol ar gyfer gwaith datblygu, dylid plannu rhagor o goed i wneud iawn am y budd i'r cyhoedd a gollir, ac adlewyrchir hynny mewn polisi cynllunio.
- Rhoi gwybodaeth i dirfeddianwyr a chymunedau am ein blaenoriaethau o ran creu coetiroedd a rhoi cymorth ariannol.
- Rydym am ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod polisi cynllunio'n adlewyrchu'r angen i blannu coed yn lle unrhyw rhai a gollir, pan ganiateir clirio coetir yn barhaol ar gyfer gwaith datblygu.

2.2 Mae mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy

Er mwyn rhoi'r strategaeth hon ar waith rhaid i goetiroedd yng Nghymru gael eu rheoli mewn modd gweithredol a chynaliadwy i gynhyrchu coed a darparu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau eraill. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd er mwyn cyflawni'r nod hwn ond yn y dyfodol, drwy ddiwygio systemau cymorth rheoli tir, disgwyliwn weld dulliau gweithredu newydd a fydd yn annog rheoli coetiroedd yn gynaliadwy.

Y cam cyntaf, sy'n hollbwysig, yw sicrhau bod mwy o goetiroedd, gan gynnwys llawer o goetiroedd bach a thameidiog, yn cael eu rheoli yn unol â Safon Coedwigaeth y DU. Er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod hyn yn digwydd, hoffem weld mwy o goetiroedd yng Nghymru yn cael ardystiad eu bod yn cyrraedd Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU. Bydd angen


amrywiaeth eang o fesurau er mwyn cyflawni hyn. Bydd coetir Llywodraeth Cymru ei hun yn parhau i gael ei reoli yn unol â Safon Coedwigaeth y DU. Bydd CNC yn cynnal ardystiad trydydd parti annibynnol ar gyfer y gwaith y mae'n ei wneud i reoli'r ystad drwy Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU.

Gallai'r farchnad ar gyfer tanwydd coed a'r cyfleoedd i ychwanegu gwerth at goed sydd wedi'u tyfu yng Nghymru, weithredu fel catalydd ar gyfer rheoli coetir yn gynaliadwy, ond bydd angen buddsoddiad cychwynnol mewn seilwaith, gan gynnwys traciau a ffensys. Yn benodol, mae angen inni wneud ymdrech arbennig i annog ffermwyr i reoli'r coedwigoedd brodorol a hynafol sydd ar eu ffermydd yn ffurfiol mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer bioamrywiaeth, coed, tanwydd coed ac fel rhannau allweddol o'n hadnoddau naturiol.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Coetiroedd Llywodraeth Cymru ei hun yn cael eu rheoli gan CNC gan ddefnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn unol â Safon Coedwigaeth y DU ac yn cael eu hardystio'n annibynnol drwy Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU.
- Mwy o goetiroedd yn cael cael eu rheoli yn unol â Safon Coedwigaeth y DU ac yn gallu cynhyrchu coed defnyddiadwy a gwasanaethau eraill.
- Mwy o goetiroedd yn cael eu hardystio i Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU.
- Mwy o'r coed defnyddiadwy sy'n cael eu tyfu yng nghoetiroedd Cymru yn cael eu cynaeafu a mwy o werth yn cael ei ychwanegu atynt wrth iddynt gael eu prosesu.
- Yr angen i ddatblygu a defnyddio Safon Coedwigaeth y DU a'i chanllawiau cysylltiedig yn parhau i gael ei hyrwyddo.
- Cefnogi a hyrwyddo ymhlith perchenogion a chwmnïau prosesu coed fanteision ardystio bod coetiroedd yn cyrraedd Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU, a chefnogi gwelliannau i'r broses o gael ardystiad ar gyfer perchenogion coetiroedd bach os yw'n amlwg ei bod yn werth gwneud hynny.
- Datblygu mwy ar systemau cymorth ariannol arloesol, megis taliadau ar raddfa tirwedd am wasanaethau ecosystemau, fel ei bod yn fwy hyfyw yn economaidd i reoli unedau llai o goetir.
- Mwy o farchnadoedd, yn enwedig rhai lleol, yn cael eu datblygu ymhellach ar gyfer cynnyrch coed.

Ffigur 3: Math o Goetir a Pherchenogaeth



2.3 Mae ecosystemau coetiroedd yn iach ac yn gydnerth

Mae cysylltiad agos rhwng iechyd a hyfywedd coed mewn coetiroedd ac iechyd a hyfywedd yr ecosystem yn ei chyfanrwydd, sydd yn ei thro'n dibynnu ar strwythur, cyfansoddiad rhywogaethau, amrywiaeth enetig a lleoliad y coetir. Er mwyn bod yn gydnerth a chyflawni ein strategaeth, mae angen amrywio llawer o ecosystemau coetiroedd yng Nghymru. Mae effeithiau cadarnhaol coetiroedd amrywiol a chymysg ar ansawdd ecosystemau a thirweddau yn cael eu deall yn dda.

Yng nghyd-destun *Coetiroedd i Gymru* nod amrywio yw symud i ffordd oddi wrth goetir a blannwyd sy'n cynnwys cellioedd un rhywogaeth lle mae'r coed fwy neu lai o'r un oedran. Er bod rhaglen fawr wedi'i chynnal eisoes dros y 30 mlynedd diwethaf i ailstrwythuro oedran y coetiroedd sy'n eiddo inni ac amrywio cyfansoddiad rhywogaethau ein coetiroedd ein hunain, mae mwy i'w wneud o hyd. Erbyn hyn mae pryderon amgylcheddol a chymdeithasol, ynghyd â'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a chyflwyno plâu a chlefydau newydd, yn golygu bod amrywio'r coetiroedd hyn lle mae'r coed i gyd o'r un rhywogaeth a'r un oedran yn dod yn bwysicach fyth. Wrth i'r hinsawdd newid gallwn ddisgwyl tymor tyfu hwy, gyda mwy o botensial ar gyfer tyfu a chynhyrchu, ond mwy o risg hefyd o ddifrod a achosir gan stormydd yn y gaeaf a sychder a thanau yn yr haf.

Mae newidiadau ym mhatrwm achosion o blâu a chlefydau eisoes yn peri risg fwy difrifol fyth, yn enwedig i'n coetiroedd. Felly, rydym yn cynnig y dylid parhau â'r ymdrech i amrywio ein coetiroedd ac annog eraill i wneud yr un peth. Credwn mai dyma'r ffordd orau o leihau risg a bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – gan ddatblygu adnodd coetiroedd cydnerth i Gymru a all gyflawni dyheadau cymdeithas ac ymdopi ag unrhyw fygythiadau gan newid yn

yr hinsawdd, plâu a chlefydau yn y dyfodol. Wedyn, gallwn ganolbwyntio ar sicrhau bod y coed a gynhyrchir o'r coetiroedd mwy amrywiol hyn yn bodloni gofynion y farchnad yn y dyfodol ac yn sicrhau diwydiant prosesu coed ffyniannus yng Nghymru.

Bydd y math o amrywiaeth yn amrywio a gellir ei chymhwyso ar wahanol raddfeydd. Nid ydym yn awgrymu y bydd pob coetir yn cynnwys cyfuniadau clôs o goed o oedrannau a rhywogaethau gwahanol, nac y byddant o darddiad brodorol yn bennaf. Mae lle i rywogaethau estron mewn coetir amrywiol a chydnerth. Bydd rhai coetiroedd yn gofyn am wneud newidiadau ar lefel celli er mwyn iddynt wneud cyfraniad sylweddol at fioamrywiaeth neu amcanion cymdeithasol. Mae'r dull hwn o weithredu yn arbennig o berthnasol os mai'r ffordd orau o gyflawni'r amcanion ar gyfer y safle yw drwy osgoi llwyrgwmpo yn y dyfodol, a thrwy gyflwyno nifer o wahanol rywogaethau o goed ac amrywiaeth enetig er mwyn cynyddu'r opsiynau rheoli yn y dyfodol. I eraill, bydd yn fwy buddiol cyflwyno mwy o amrywiaeth drwy'r coetir cyfan, lle gellir gwneud defnydd creadigol o amrywiadau ym mhotensial y safle er mwyn sefydlu ystod ehangach o rywogaethau. Bydd y ddau ddull o weithredu, o'u cyfuno'n strategol ar lefel tirwedd, yn gwneud cyfraniad sylweddol at ecosystemau iachach, mwy cydnerth a chynhyrchiol mewn coetiroedd.

Yn ymarferol, sicrheir amrywiaeth fesul safle a bydd yn cynnwys nodweddion fel rhywogaethau, amrywiaeth enetig, oedran, strwythur ac arwynebedd coetir. Bydd amrywiaeth o dechnegau rheoli a systemau tyfu coed oll yn helpu i greu amrywiaeth, a bydd y rhain yn cyd-fynd â chyflwr safleoedd ac amcanion rheoli. Rhaid i bob un ohonynt ystyried gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Rydym yn deall bod coetiroedd mwy amrywiol yn gofyn am systemau rheoli mwy cymhleth, sy'n llai fforddiadwy i rai perchenogion

a rheolwyr coetiroedd. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd angen mynd i'r afael ag effeithiau'r cynnydd yn niferoedd y ceirw a'r gwiwerod llwyd wrth inni symud tuag at fwy o amrywiaeth.

Rydym yn cydnabod bod pryder y gallai rhai rhywogaethau sy'n cael eu plannu er mwyn amrywio coetiroedd olygu bod llai o goed yn cael eu cynhyrchu ac, o bosibl, nad oes cymaint o farchnad ar gyfer y coed na'r rhywogaethau sydd wedi'u sefydlu'n well. Dyma pam y bydd angen inni gefnogi'r newidiadau hyn, a fydd o fudd i'r cyhoedd, a dyma pam rydym yn anelu at fynd ati ar raddfa genedlaethol i gynnal potensial

cyffredinol coetiroedd Cymru i gynhyrchu.

Bwriadwn wneud hyn drwy ein dwy strategaeth, sef sicrhau bod mwy o goetiroedd yn cael eu rheoli a chynyddu gorchudd coetir, a thrwy gefnogi mentrau a strategaethau sy'n cynyddu potensial economaidd coetir a reolir ar gyfer amrywiaeth o fanteision.

Rydym yn cydnabod bod hwn yn newid sylweddol i'r sector tyfu coed a'r sector prosesu coed, ond credwn fod ffocws cryfach ar iechyd a chydnerthedd ecosystemau coetiroedd yn hanfodol er mwyn i goetiroedd Cymru sicrhau'r manteision ehangach sydd eu hangen ar bobl Cymru.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Strwythur oedran, rhywogaethau coed a sail enetig coetiroedd, yn enwedig coetiroedd sydd wedi'u plannu â rhywogaethau estron, yn cael eu hamrywio'n briodol, ar wahanol raddfeydd, gan ddefnyddio systemau sy'n addas i'r safle a'r amcanion rheoli coetiroedd.
- Blaenoriaeth yn cael ei rhoi i rywogaethau coetiroedd brodorol wrth adfer coetiroedd sydd wedi'u plannu ar safleoedd coetir hynafol.
- Sylw yn cael ei roi i effeithiau negyddol plâu a chlefydau ar goetiroedd.
- Ystad Coetir Llywodraeth Cymru yn cael ei rheoli er mwyn sicrhau ei bod yn fwy abl i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a pherchenogion coetir eraill yn cael eu hannog i wneud yr un peth.
- Ein Strategaeth Iechyd Coed yn cael ei rhoi ar waith, a'i hasesu'n barhaus, er mwyn gwella ein gallu i ymdrin ag achosion o blâu a chlefydau coetir nawr ac yn y dyfodol.
- Parhau i ddatblygu dulliau strategol o ymdrin ag effeithiau Rhywogaethau Estron Goresgynnol ar goetiroedd, megis ceirw muntjac a sitka a gwiwerod llwyd.

2.4 Mae coetiroedd wedi'u haddasu'n well er mwyn cynnig ystod eang o fanteision

Er bod y syniad o reoli coetiroedd amlbwrpas yn cael ei dderbyn yn eang, yn aml mae gwerth yr holl fanteision y gall coetiroedd a choed eu cynnig i gymdeithas yn cael ei ddiystyru. Cyfeirir at y manteision hyn gyda'i gilydd fel gwasanaethau ecosystemau ac maent yn cynnwys:

- **Gwasanaethau cyflenwi** – ee coed at ddibenion amrywiol, gan gynnwys ynni adnewyddadwy i gymryd lle tanwydd ffosil ac yn lle deunyddiau sy'n defnyddio mwy o garbon, megis dur a choncrit; cyflenwad dŵr.
- **Gwasanaethau diwylliannol** – ee manteision sy'n gysylltiedig â hamdden, iechyd a manteision esthetig ac ysbrydol i bobl sy'n byw yn agos at goetiroedd neu sy'n ymweld â nhw; tirweddau, treftadaeth a diwylliant; addysg.
- **Gwasanaethau rheoleiddio** – ee dal a storio carbon; diogelu adnoddau dŵr a phridd mewn dalgylchoedd; cyfrannu at y gwaith o adfer tir halogedig; darparu lloches, cysgod a lle oerach mewn trefi, a chysgod rhag y gwynt (lleiniau cysgodi) ar dir amaethyddol.

- **Gwasanaethau cynnal** – ee ffurfio pridd, ailgylchu maethynnau a chynhyrchu ocsigen; bioamrywiaeth.

Ar wahân i goed, ni ellir gwerthu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau ecosystemau hyn ar y farchnad agored. Er hynny, maent yn bwysig iawn i bobl Cymru, fel y dangosir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r cyflenwad presennol o wasanaethau ecosystemau a ddarperir gan goetiroedd wedi'i gyfyngu gan dri phrif ffactor – natur a chymeriad coetiroedd yng Nghymru a'r ffordd y cânt eu rheoli; tanreoli coetiroedd sy'n bodoli eisoes; a phrinder coetiroedd mewn mannau lle mae eu hangen.

Mae llawer o goetiroedd brodorol a chymysg yng Nghymru nad ydynt yn cael eu rheoli'n weithredol gan nad yw'r incwm o goed yn unig yn ddigon i dalu am y gwaith rheoli. Credwn y byddai mwy o'r adnodd pwysig hwn yn cael ei reoli'n gynaliadwy pe gellid adlewyrchu costau darparu gwasanaethau ecosystemau yn briodol yn yr incwm o'r coetiroedd hyn. Lle nad yw'r farchnad yn gwneud hynny' byddwn yn gweithio gydag eraill er mwyn sicrhau taliadau am y gwasanaethau ecosystemau hyn a, lle y bo'n bosibl, annog dulliau rheoli sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnyrch coed gael ei gynaeafu.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Coetiroedd a choed unigol yng Nghymru yn cael eu gwerthfawrogi gan eu perchenogion a chymdeithas am yr holl nwyddau a gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys coed, tanwydd, ansawdd dŵr a rheoli dŵr, rheoleiddio'r hinsawdd, bioamrywiaeth, a gwella tirweddau a chyfleoedd ar gyfer mynediad.
- Penderfyniadau ynghylch creu a rheoli coetiroedd yn rhoi ystyriaeth lawn i'r holl wasanaethau ecosystem y gallai'r coetir eu darparu, nid yn unig y potensial i gynhyrchu coed.
- Ar ein hystad coetiroedd ein hunain, defnyddio dulliau rheoli priodol i ddarparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau ecosystem ac annog eraill i wneud yr un peth.
- Sicrhau bod ein hystad coetiroedd yn parhau i gynhyrchu'r un faint o goed yn y byrdymor i'r tymor canolig er mwyn cefnogi datblygu cynaliadwy a'r sector prosesu coed yng Nghymru.
- Parhau i weithio gydag eraill i ddatblygu systemau arloesol o daliadau am wasanaethau ecosystemau.

2.5 Mae cysylltiad agosach rhwng gweithgarwch rheoli coetiroedd a choed a defnyddiau tir eraill

Yn hanesyddol, byddai coetiroedd brodorol wedi bod yn rhan annatod o'r rhan fwyaf o ffermydd yng Nghymru a chaent eu rheoli'n ofalus i ddarparu coed a thanwydd. Byddai coed unigol a choed mewn gwrychoedd hefyd wedi bod yn bwysig. Mae'r cyswllt swyddogaethol hwn wedi'i hen golli mewn llawer gormod o achosion.

Mae coetiroedd preifat cynhyrchiol yng Nghymru yn seiliedig ar y planhigfeydd conwydd a sefydlwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif, yr ystyriai ffermwyr yn gyffredinol eu bod yn ddewis amgen i amaethyddiaeth, yn hytrach nag yn rhan ohoni. Weithiau, mae strwythurau hanesyddol taliadau cymorth ar gyfer amaethyddiaeth wedi bod yn ffordd o gymell ffermwyr i beidio â rheoli coetir neu maent wedi datgymhwyso coetiroedd fferm rhag hawlio taliadau cymorth yn gyfan gwbl. Creodd hyn gymhelliant i orbori coetiroedd fferm gan arwain at golli cynefinoedd a diffyg aildyfiant. Mewn rhai achosion, mae tirfeddianwyr a oedd yn wynebu'r posibilrwydd y byddent yn colli taliadau cymorth oherwydd y gorchudd coed ar eu fferm wedi clirio coed ar

dir ffermio yn gyfan gwbl. Wrth inni ddiwygio'r systemau cymorth rheoli tir, mae cyfle i fynd i'r afael â'r cymhellion hyn sy'n arwain at ganlyniadau cwbl groes i'r hyn a ddymunir.

Mae'n debygol y daw llawer o'r cynnydd arfaethedig mewn gorchudd coetir yng Nghymru o goetiroedd newydd ar dir ffermio, gan ddarparu gwasanaethau ecosystemau pwysig. Pobl Cymru a chymunedau Cymreig a ddylai gael budd o gynlluniau i greu coetir ac i reoli coetir yn well. Bydd cyfleoedd i fuddsoddwyr masnachol ac eraill gymryd rhan yn y gwaith o greu a rheoli coetir ond dylai hyn bob amser fod yng nghyd-destun sicrhau ffyniant i bawb yng Nghymru. Mae darparu gwasanaethau o ansawdd uchel o goetiroedd yn broses hirdymor a'r rhai sy'n deall y gwasanaethau hynny'n dda sydd fwyaf cymwys i wneud hynny.

Gall greu coetiroedd a phlannu coed chwarae rhan bwysig yn y broses o adfer hen dir diwydiannol a bod yn rhan annatod o weithgarwch rheoli amgylcheddol mewn datblygiadau trefol a diwydiannol. Er enghraifft, mae llawer o gyfleoedd yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol Cymru – megis Coetir Ysbryd Llynfi ger Pen-y-bont ar Ogwr, a gynlluniwyd ac a ddatblygwyd ar y cyd â'r gymuned leol.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Ffermwyr yn cael gwell cymorth i reoli eu coetiroedd a'u coed er mwyn darparu gwasanaethau ecosystemau ac arallgyfeirio eu busnesau.
- Coed unigol sy'n bodoli eisoes, yn enwedig coed hynafol, yn cael eu diogelu'n well, a mwy o goed unigol yn cael eu plannu gan gydnabod eu cyfraniad at wasanaethau ecosystemau ac ansawdd ein bywyd.
- Ffermwyr, busnesau gwledig a chymunedau sydd â'r potensial i ddefnyddio coed a thanwydd coed yn gynaliadwy.
- Adnoddau yn cael eu datblygu a fydd yn helpu ffermwyr i leoli coetiroedd newydd a rheoli coetiroedd sy'n bodoli eisoes er mwyn cynyddu cynhyrchiant ffermydd yn gyffredinol a gwella'r dirwedd.
- Creu coetiroedd a phlannu coed yn cael eu hyrwyddo fel rhannau annatod o weithgarwch cynllunio defnydd tir ac elfen bwysig o systemau rheoli tir integredig yn y dyfodol.
- Newidiadau i gymorth ar gyfer defnydd tir yn cael eu defnyddio i ddileu datgymhellion ac, yn lle hynny, annog plannu coed, creu coetir a rheoli coetir.

2.6 Mae coetiroedd a choed trefol yn cynnig ystod eang o fanteision

Rydym am weld coetiroedd a choed yn chwarae rôl sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fwy fel elfennau o'r seilwaith gwyrdd yn ardaloedd trefol Cymru ac o'u hamgylch. Mae coed trefol yn lleihau llygredd aer a sŵn a'r materion iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â nhw, ac mae hamdden awyr agored mewn coetiroedd trefol yn gwella llesiant corfforol a meddyliol. Gall coetiroedd trefol hefyd ddarparu ffocws ar gyfer gweithredu a gwirfoddoli cymunedol, gan helpu i gynyddu cyfalaf cymdeithasol, gwella cydlyniant cymunedol a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae angen sicrhau gwerthfawrogiad ehangach o goed sy'n bodoli eisoes ar strydoedd, er mwyn helpu i sicrhau y cânt eu diogelu, a phlannu mwy o goed unigol mewn trefi a dinasoedd yng Nghymru. Pan fyddant yn gysylltiedig ag adeiladau, gall coetiroedd

a choed feddalu'r man lle mae'r amgylchedd adeiledig yn cyfarfod â'r amgylchedd naturiol a chyfrannu at wneud ardaloedd trefol yn fwy gwyrdd ac adfer tir diwydiannol. Rydym am weld defnydd mwy creadigol yn cael ei wneud o gyfleoedd i blannu coetiroedd a choed mewn datblygiadau newydd, ac wrth adfer safleoedd tir llwyd. Rydym hefyd yn awyddus i weld mynediad gwell a haws i fannau gwyrdd trefol a gwledig.

Mae gan goetiroedd a choed rôl hollbwysig i'w chwarae wrth helpu pobl a bioamrywiaeth i addasu i effeithiau hinsawdd sy'n newid, sy'n debygol o gynnwys newidiadau ym mhatrwm glawiad, mwy o risg o lifogydd a thymereddau brig uwch (sy'n fwy amlwg mewn ardaloedd trefol). Mae coed ar strydoedd ac mewn parciau yn helpu i wneud ardaloedd trefol yn llai poeth yn yr haf ac yn cynnig cysgod i bobl ac i adeiladau. Maent hefyd yn helpu i leihau'r pwysau ar systemau draenio trefol, drwy amsugno dŵr a fyddai fel arall yn rhedeg oddi ar arwynebau anhydraidd mawr.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Coetiroedd a choed yn cael eu defnyddio'n fwy creadigol yn y seilwaith gwyrdd ac mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch (ee datblygiadau newydd, adfer safleoedd diwydiannol, llwybrau teithio llesol a choridorau gwyrdd), er mwyn darparu mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd gwell i bobl.
- Awdurdodau lleol ac eraill yn datblygu eu rhaglenni plannu coed trefol a rheoli coetiroedd ymhellach.
- Meddalwedd i-Tree Eco neu adnoddau tebyg yn parhau i gael eu defnyddio i fesur adeiledd ac effeithiau amgylcheddol coed trefol ac asesu eu gwerth i gymdeithas.
- Mynediad i goetiroedd trefol yn cael ei wella, yn arbennig ar gyfer pobl nad oes ganddynt fynediad hawdd i fannau gwyrdd ar hyn o bryd.
- Awdurdodau lleol, tirlunwyr, penseiri a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn sicrhau bod manteision amgylcheddol coed o ran addasu'r microhinsawdd a systemau draenio, yn cael eu hystyried mewn canllawiau cynllunio a gwaith rheoli datblygu, ac wrth greu systemau draenio trefol cynaliadwy.
- Hyrwyddo'r neges bod coetiroedd a choed trefol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lawer o agendâu polisi eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, iechyd, lles cymdeithasol, dysgu gydol oes a bioamrywiaeth, a gweithgarwch rheoli adnoddau dŵr a phridd.



Tyrau Oeri

3. Ymateb i newid yn yr hinsawdd

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y ffordd y mae pob un ohonom yn byw, a rhaid inni fynd i'r afael â'r ddwy her sy'n gysylltiedig â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ymdopi ag effeithiau patrymau tywydd sy'n newid. Mae gan goetiroedd a choed Cymru rôl i'w chwarae o ran ein galluogi i gyflawni gwahanol dargedau rhyngwladol a domestig sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, er enghraifft "cyfraniadau a bennwyd yn genedlaethol" sy'n ofynnol o dan Gytundeb Paris 2015 ar newid yn yr hinsawdd.

Mae *Coetiroedd i Gymru* yn egluro sut y gallwn ymateb i'r heriau hyn drwy ein polisïau ar gyfer coed a choetiroedd.

Mae'n bwysig nodi, er bod gan goetiroedd a choed yng Nghymru gryn potensial i gyfrannu'n uniongyrchol at ein hymdrechion i ymdrin â newid yn yr hinsawdd, mai dim ond os gallan nhw eu hunain ymdopi â phatrymau tywydd sy'n newid a risgiau newydd sy'n gysylltiedig â phlâu a chlefydau y gellir cyflawni hyn.

Felly, ein blaenoriaeth gyntaf yw sicrhau bod coetiroedd yn ddigon cydnherth i allu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd neu addasu iddo oherwydd, heb ecosystemau iach mewn coetiroedd, ni fydd yn bosibl sicrhau'r holl fanteision a all ddeillio o goetiroedd. Mae angen gweithredu nawr i gyflawni newid yn y tymor canolig i'r hirdymor, gan fod gan goed gylch oes hir ac y gall gymryd llawer o flynyddoedd i roi newidiadau mewn dulliau rheoli coetir ar waith. Byddwn yn rheoli ein coetiroedd ein hunain gan anelu at gyflawni'r nodau hyn ac yn annog ac yn cefnogi'r dulliau gweithredu hyn mewn mannau eraill.

Mae coed yn dylanwadu'n fawr ar y microhinsawdd o'u hamgylch ac maent hefyd yn effeithio ar lif dŵr drwy'r pridd ac ar ei draws. Bydd yr effeithiau buddiol hyn ar lifau dŵr a hinsawdd drefol hefyd yn helpu pobl Cymru i ymdopi ag effeithiau newid yn yr hinsawdd o ddydd i ddydd.

Os gallwn eu haddasu er mwyn iddynt allu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd, yna gall coetiroedd a choed sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â'r rhai y gellid eu plannu, oll gyfrannu at gyflawni ein targedau i leihau allyriadau net o nwyon tŷ gwydr. Mae dwy elfen i'r cyfraniad hwn:

- Drwy ddal a storio carbon drwy ffotosynthesis a'i gloi mewn coed ac mewn priddoedd coetir, bydd coed sy'n tyfu yn tynnu rhywfaint o'r carbon deuocsid y mae pobl wedi'i greu o'r atmosffer. Er mwyn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ein cydbwysedd carbon, mae angen inni weld coetir a choed newydd yn cael eu plannu ar dir nad oedd wedi'i orchuddio â choed o'r blaen.
- Gallwn ddefnyddio cynnyrch coed a gynaeafir o goedwigoedd a reolir yn gynaliadwy fel storfa ychwanegol ar gyfer carbon a amsugrir o'r atmosffer. Gelwir y storfa carbon hon yn gronfa cynnyrch coed a gynaeafir. Er mwyn iddi fod yn effeithiol, mae angen inni sicrhau y caiff y pren ei ddefnyddio cyhyd â phosibl cyn iddo gael ei ailgylchu neu ei waredu. Drwy ddefnyddio cynnyrch coed yn lle plastig, dur neu goncrïd, gallwn hefyd osgoi'r angen i ddefnyddio symiau mawr o danwyddau ffosil i greu'r deunyddiau hyn.

Ymdrinnir mewn rhannau eraill o'r Strategaeth hon â llawer o'r canlyniadau allweddol ar gyfer manteisio ar goetiroedd a choed er mwyn helpu cymdeithas i addasu i newid yn yr hinsawdd, ond mae canlyniad ychwanegol sy'n ymwneud yn benodol â lleihau allyriadau net o nwyon tŷ gwydr, sef:

- Mae coetiroedd yng Nghymru yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon Cymru.

3.1 Mae coetiroedd yng Nghymru yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon Cymru



Helpu Cymru i leihau
ei Hôl Troed Carbon

Help Wales reduce
its Carbon Footprint

Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y ffordd y mae pob un ohonom yn byw ac mae'n rhaid inni barhau i fynd i'r afael â'r her sy'n gysylltiedig â lleihau allyriadau carbon wrth ymdopi ag effeithiau hinsawdd sy'n newid, nawr ac yn y dyfodol. Mae gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd bellach yn ymrwymiad cyfreithiol yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu targedau datgarboneiddio ar ôl cael cyngor Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd y DU (UKCCC). Mae creu coetir newydd a rheoli coetiroedd sy'n bodoli eisoes yn rhannau allweddol o'r elfen Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth yn ein nodau lleihau allyriadau. Mae angen inni blannu mwy o goetiroedd a sicrhau ein bod yn rheoli ein coetiroedd presennol er mwyn diogelu dalfa garbon y coetiroedd.

Mae UKCCC wedi awgrymu tair senario ar gyfer lleihau allyriadau. Byddai'r prif senario, sef "*Lleihad o 80% yng Nghymru*", pe câi ei gyflawni, yn galluogi Cymru i gyflawni ei hymrwymiad cyfreithiol i leihau allyriadau 80% o gymharu â'u lefel cyn 1990 erbyn 2050.

Byddai'r senario hon yn gofyn am gryn ymdrech gan y sectorau defnydd tir. Mae UKCCC yn nodi bod y prif opsiwn datgarboneiddio ar gyfer y sector defnydd tir yn gofyn am blannu mwy o goed. Mae'n awgrymu targed ar gyfer creu coetir a fyddai'n gofyn am gynnydd o'r cyfraddau sylfaenol presennol o ychydig o gannoedd o hectarau yn unig i tua 2,000 hectar y flwyddyn rhwng 2020 a 2030. Byddai hyn yn arwain at ostyngiad

o 0.3MTCO₂e yn 2030. Mae'n cynnig "Senario Uchafswm" a fyddai'n gofyn am blannu 4,000 hectar y flwyddyn rhwng 2020 a 2030. Mae UKCCC yn nodi, unwaith y bydd rhaglenni plannu sy'n cyd-fynd â'r argymhellion hyn ar waith, y dylent barhau rhwng 2030 a 2050. Mae'r cyngor hwn yn cydnabod bod disgwyl i allyriadau o amaethyddiaeth ddod yn gyfran fwy o gyfanswm yr allyriadau wrth i sectorau eraill ddatgarboneiddio'n gyflymach.

Mae UKCCC hefyd yn rhagweld y caiff coed a phrysgwydd eu hintegreiddio'n fwy mewn systemau defnydd tir sy'n seiliedig ar gnydau â'r da byw. Byddai hyn yn cynyddu'r carbon sy'n cael ei storio mewn pridd ac yn lleihau allyriadau nitrogen ocsid a achosir gan y defnydd o wrteithiau. Byddai, ar yr un pryd, yn cyfrannu at amcanion rheoli cynaliadwy ehangach i wella ansawdd dŵr a ffrwythlondeb pridd.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn bydd angen newid sylweddol o ran gweithgarwch gan droi at greu coetir a chynyddu nifer y coed ar ffermydd. Yn ei gyngor ar leihau allyriadau amaethyddol mae UKCCC yn ddi-flewyn-ar-dafod. Er mwyn sicrhau'r gostyngiadau gofynnol mewn allyriadau, mae'n awgrymu bod angen troi cefn ar y dull gwirfoddol presennol o leihau allyriadau yn y sector amaethyddol ac y dylai'r llywodraeth fabwysiadu polisi cryfach.

Gwyddom fod ffermwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cyfyngu gan y systemau cymorth amaethyddol presennol a chan ddiffyg ymwybyddiaeth a'r ffaith nad oes ganddynt y sgiliau i reoli coed a choetiroedd. Gan fod y sector amaethyddol yn gyfrifol am gyfran gynyddol o allyriadau, wrth i sectorau eraill ddatgarboneiddio'n gyflymach, mae angen i'r sector amaethyddol wneud mwy.

Drwy reoli coetiroedd sy'n bodoli eisoes ar ffermydd, creu coetiroedd newydd lle bynnag y bo'n bosibl ac integreiddio coed a choetiroedd newydd yn y dirwedd a ffermir, mae cyfleoedd i amaethyddiaeth a choedwigaeth gyfrannu at fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Yn y coetiroedd sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, wrth i'r coed aeddfedu, bydd cyfanswm y carbon y gallant ei storio yn lleihau. Mae'n bwysig bod y ddalfa garbon bresennol yn cael ei chynnal pan fydd y coetiroedd hyn yn cael eu rheoli – golyga hyn gadw'r ardal goediog yn gyflawn lle bynnag y bo'n bosibl drwy fynd ati'n gyflym i ailblannu coetiroedd a gynaeafwyd a rhoi ystyriaeth lawn i effaith cynyddu nifer yr ardaloedd heb eu plannu neu goetiroedd y mae llai o goed yn tyfu ynddynt. Er y ceir rhai achosion lle y bydd angen ardaloedd mwy agored, fel arfer, dylid cydbwyso'r ardaloedd agored newydd hyn ag ardaloedd lle y plannir coed yn agosach at ei gilydd a defnyddio dwyseddau celli uwch mewn mannau eraill, neu drwy greu coetir newydd i wneud iawn am ardaloedd a gollwyd at ddibenion ailgynllunio neu amrywio.

Mae adfer priddoedd mawndir yn elfen bwysig o weithgarwch rheoli defnydd tir am resymau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a dal a storio carbon. Ymdrinnir ag adfer cynefinoedd agored yn fanylach ym Mhennod 6. Pan gaiff coetir ei glirio i adfer cynefin mawndir, dylid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar bolisïau datgarboneiddio ac asesu'r effaith carbon net. Dim ond ar safleoedd yr aseswyd eu bod yn debygol iawn o gael eu hadfer yn llwyddiannus a lle mae cynllun adfer mawndir sefydledig ar waith, y dylid clirio coetir. Dylid ystyried cynnal gorchudd coetir gwlyb er mwyn i fïomas ar wyneb y ddaear allu cyfrannu at ddal a storio carbon.

Nid yw priddoedd mawndir yn dal nac yn storio carbon ychwanegol hyd yn oed pan fyddant mewn cyflwr da – dim ond llystyfiant sy'n ffotosyntheseiddio sy'n gwneud hynny. Fodd bynnag, lle mae systemau draenio coedwigoedd hanesyddol yn dal i gyfrannu at brosesau erydu mawndir a cholli carbon organig o briddoedd, dylid rhoi sylw i'r rhain fel rhan o drefniadau rheoli arferol.

Mae ymchwil gan y Comisiwn Coedwigaeth yn awgrymu mai dulliau rheoli coetir sydd wedi'u hanelu at: i) tyfu coed cadarn ar gyfer

y sectorau adeiladu a gweithgynhyrchu, ii) defnyddio coed â diamedr llai ar gyfer tanwydd coed a, iii) sicrhau llai o darfu ar bridd, sydd fwyaf tebygol o sicrhau gostyngiadau hirdymor mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr net. Bydd gwaith ymchwil parhaus yn ein helpu i ddeall sut i sicrhau'r budd mwyaf o weithredu pob un o'r opsiynau rheoli gwahanol a rhoi'r arweiniad gorau posibl i reolwyr coetiroedd, ond mae'r egwyddor sylfaenol wedi hen ennill ei phlwyf: bydd sicrhau bod mwy o goetiroedd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at liniaru newid yn yr hinsawdd.

Gall llosgi tanwydd coed yn gyfrifol wneud cyfraniad bach ond gwerthfawr at gyflawni targedau Cymru ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae cyfle i ddefnyddio cyflenwadau o Gymru yn lle tanwydd coed sy'n cael ei fewnforio, drwy blannu coed newydd a sicrhau bod mwy o goetiroedd yn cael eu rheoli'n weithredol. Gallai Coedwigaeth Cylchdro Byr, a gyflawnir o fewn fframwaith rheoli coedwigoedd cynaliadwy, gan ddefnyddio Safon Coedwigaeth y DU fel meincnod, wneud cyfraniad ychwanegol defnyddiol at farchnadoedd tanwydd coed lleol.

Wrth i'n coedwigoedd aeddfedu ac wrth i'w gallu i gloi mwy o CO₂ leihau, mae potensial o hyd i gynyddu'r carbon sy'n cael ei storio mewn cynnyrch coed a gynaeafir. Rydym am weld defnydd helaethach o goed, yn enwedig mewn cynnyrch coed sydd ag oes gymharol hir megis pren a ddefnyddir mewn adeiladau neu ddodrefn. Mae'n bwysig bod ein coetiroedd yn gynhyrchiol – fel y nodir ym Mhennod 5. Un o fanteision ychwanegol gweithgarwch cynhyrchu coed yw'r storfa garbon ychwanegol hon. Mae effaith hefyd o ran disodli wrth i gynnyrch coed gael ei ddefnyddio'n helaethach yn lle cynnyrch sy'n seiliedig ar danwyddau ffosil. Wrth i Gymru symud tuag at economi gylchol, sy'n gwneud llai o ddefnydd o blastigau er enghraifft, mae gan gynhyrchion papur a choed botensial fel dewisiadau amgen mwy cynaliadwy.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Ardaloedd sylweddol o goetiroedd newydd yn cael eu creu a mwy o goetiroedd yn cael eu rheoli'n weithredol ar wahanol raddfeydd ac ar gyfradd sy'n ymateb i dargedau a bennir yng nghyd-destun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) gan gadw'r ddysgl yn wastad rhwng hynny a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Coetiroedd newydd a choetiroedd sy'n bodoli eisoes yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn fwy abl i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd ac sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng cyflawni amcanion eraill y Strategaeth hon a chynhyrchu coed defnyddiadwy a chynnyrch coed i storio carbon yn yr hirdymor, gan ddal a storio carbon mewn biomas a phriddoedd hefyd.
- Lle mae Coedwigoedd Cylchdro Byr yn cael eu tyfu er mwyn cynhyrchu cymaint o danwydd coed â phosibl at ddibenion ynni, bod hyn wedyn yn cael ei wneud o fewn fframwaith rheoli coedwigoedd cynaliadwy ehangach sy'n cydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU.
- Gallu coetiroedd i storio carbon yn cael ei ddiogelu drwy sicrhau cydbwysedd rhwng y manteision sy'n deillio o ailgynllunio coetiroedd ac adfer cynefin a'r angen i gynnal dalfeydd carbon mewn coetir a chynyddu arwynebedd coetir lle y bo angen er mwyn gwneud iawn am unrhyw goetir a gollwyd.
- Newidiadau o ran gorchudd coetir yn cael eu monitro yn rheolaidd fel y bo modd defnyddio ffyrdd 'clyfar' o lunio rhestrau' yn y sector Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth yng Nghymru.



Couple on woodland walk, Gwydyr Forest

4. Coetiroedd i Bobl

Mae coetir a choed yn darparu cefnlen werdd i fywydau pobl bob dydd. Maent yn cael eu cydnabod gan 95% o'r bobl yng Nghymru fel nodweddion sy'n dod â manteision i'r gymuned leol. Dengys tystiolaeth o'r arolwg *Omnibws o Farn y Cyhoedd am Goedwigaeth*, a gynhelir bob dwy flynedd, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu bioamrywiaeth, hamdden egnïol megis cerdded, beicio a marchogaeth, a'u harddwch. Felly, gwyddom y gall gweithgareddau mewn coetiroedd gyfrannu at wella iechyd a lles pobl, cefnogi cyfleoedd cyflogaeth a busnes a darparu lleoedd i ddatblygu sgiliau a dysgu am ein hamgylchedd naturiol, ac ynddo.

Gall presenoldeb coed mewn ardaloedd trefol wella ansawdd aer, lleihau sŵn, rhoi cysgod, gwella llwybrau teithio llesol, gwella systemau draenio a chynnig cyfleoedd i bobl gysylltu â natur. Drwy'r arolwg, dywedodd pobl wrthym eu bod yn gwerthfawrogi coed ar strydoedd yn arbennig, am eu bod yn gwneud i'r ardal edrych yn fwy deniadol, yn darparu lleoedd i adar a bywyd gwyllt fyw ynddynt ac yn tynnu carbon deuocsid o'r atmosffer, gan arafu'r newid yn yr hinsawdd.

Mae coetiroedd yn cynnig amgylcheddau diogel a diddorol i ddysgu yn yr awyr agored a datblygu sgiliau rheoli tir a sgiliau bywyd, a gall cynnwys y gymuned yn y gwaith o reoli coetir a'r defnydd a wneir ohono feithrin cydlyniant cymdeithasol ac ategu gwaith datblygu lleol. Mae coetiroedd yn helpu i gyflawni amcanion economaidd drwy greu swyddi a datblygu busnesau. Mae'r swyddi a'r busnesau hyn yn dod yn fwyfwy amrywiol ac maent yn cynnwys gwasanaethau rheoli tir, gweithgynhyrchu cynnyrch coetir, busnesau hamdden a thwristiaeth a gwasanaethau iechyd.

Mae'r manteision hyn yn fwy tebygol o gael eu sicrhau pan fydd pobl yn byw yn agos at goed neu'n gallu ymweld â choetiroedd yn aml; yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio mannau gwyrdd hygyrch; yn weithgar mewn coetiroedd; yn gallu cael gafael ar gynnyrch coetir lleol; yn gallu creu bywoliaethau a chymunedau sy'n

gysylltiedig â choetiroedd ac yn cymryd rhan yn y gwaith o reoli coetiroedd. Mae angen inni ymdrin â'r anghydraddoldeb sy'n bodoli o ran y manteision sy'n deillio o goetiroedd a choed. Ceir coetiroedd na all cymunedau gerllaw gael mynediad iddynt. Ceir ardaloedd trefol heb goed, cymunedau gwledig heb fynediad i fannau gwyrdd cymunedol a diweithdra mewn ardaloedd sydd â photensial ar gyfer busnesau coetir arloesol.

Mae pedwar canlyniad allweddol lle mae coetiroedd a choed yn cyfrannu at wella llesiant pobl:

- Mae mwy o gymunedau yn ymwneud â'u coetiroedd a'u coed lleol ac yn cael budd ohonynt.
- Mae mwy o bobl, o bob oedran, yn cael budd o gyfleoedd addysg a dysgu a ddarperir mewn coetiroedd a choed ac yn agos atynt.
- Mae mwy o bobl yn byw bywydau iachach o ganlyniad i ddefnyddio a mwynhau coetiroedd a choed a byw'n agos atynt.
- Mae mwy o bobl yn cael budd o fusnesau sy'n ymwneud â choetir a chyfleoedd cyflogaeth cysylltiedig.

4.1 Mae mwy o gymunedau yn ymwneud â'u coetiroedd a'u coed lleol ac yn cael budd ohonynt

Mae sicrhau budd i'r cyhoedd yn un o egwyddorion canolog Ystad Coetir Llywodraeth Cymru a choetir cyhoeddus arall yng Nghymru. Mae'n ofynnol i CNC a chyrrff cyhoeddus eraill gynnwys pobl cyn gynted â phosibl a dylent geisio cydweithio â chyrrff yn y trydydd sector a chymunedau i gyflawni nodau y byddant yn penderfynu arnynt gyda'i gilydd. Yn ymarferol, golyga hyn y dylid ymgynghori â chymunedau lleol a'u gwahodd i gyfrannu at y gwaith o lunio cynlluniau rheoli ar gyfer coetir Llywodraeth Cymru a leolir yn eu hardal leol. Dangoswyd bod mwy o ymwneud ar ran y gymuned mewn coetir, megis ar ffurf cytundebau rheoli a lesau i fentrau cymdeithasol, yn sicrhau manteision

ychwanegol i'r cyhoedd a manteision o ran llesiant a dylid defnyddio hyn i annog cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a chymunedau lleol.

Ar gyfer y sector preifat, mae'r safonau coedwigaeth (UKFS ac UKWAS) yn ei gwneud yn ofynnol i bobl leol sydd â diddordeb yn y coetir gael eu nodi a'u hysbysu bod cynllun rheoli yn cael ei baratoi ar gyfer coetir. Ni ddisgwylir i weithgarwch ymgynghori â phobl leol a rhanddeiliaid fod mor gynhwysfawr a phenagored ag ymgynghoriadau ar gyfer Ystad Coetir Llywodraeth Cymru ond dylai gweithgarwch ymgysylltu fod yn ddigonol i nodi defnyddiau caniataol neu draddodiadol o'r coetir ac effeithiau cymdeithasol sylweddol fel y gellir eu cynnwys yn y cynllun rheoli.

Cynhelir ymgynghoriadau ynghylch cynlluniau rheoli coetir o bryd i'w gilydd ac maent ar lefel eithaf isel – dim ond 5% o'r ymatebwyr i arolygon a oedd yn cofio bod yn rhan o ymgynghoriad ynghylch cynllun rheoli coetir lleol. Fodd bynnag, dywedodd 39% o ymatebwyr yr hoffent fod yn rhan o ymgynghoriad. Mae hyn yn awgrymu bod gan y cyhoedd ddiddordeb yn eu coetir lleol ac y gellid defnyddio'r awydd hwn i gyfranogi er mwyn sicrhau bod y coetiroedd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar annog deialog ystyrlon rhwng cymunedau lleol a pherchenogion coetir er mwyn sicrhau bod y manteision sy'n deillio o bob coetir yn cael eu cynnal o leiaf, neu hyd yn oed yn cynyddu.

Dylai'r manteision sy'n cael eu hystyried gynnwys mynediad i goetir a'r gallu i fanteisio ar gynnyrch coetir fel sail i ddatblygu busnesau.

Ceir y lefel uchaf o gyfranogiad pan ddaw cymuned at ei gilydd i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoli coetir. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cytundebau perchenogaeth, y lesau a'r cytundebau rheoli cymunedol gyda pherchenogion coetir cyhoeddus a phreifat. Nododd yr *Arolwg o Farn y Cyhoedd* mai anfantais fwyaf cyffredin coetir yw achosion o dipio anghyfreithlon, bod 'coetiroedd yn ein hardal leol yn cynnig lle i gyflawni troseddau' ac 'na allwn reoli'r hyn sy'n digwydd yn ein coetiroedd lleol'. Yn yr achosion hynny lle mae gan gymunedau fwy o reolaeth dros goetiroedd gwelwyd lleihad yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ynghyd â mwy o fanteision cymunedol megis cyfleoedd i wirfoddoli (ee digwyddiadau casglu sbwriel) a chydlyniant cymdeithasol. Mae rhai grwpiau coetir yn datblygu'n fentrau cymdeithasol ac yn darparu cyfleoedd dysgu a hyfforddiant, gwasanaethau iechyd a lles, coed tân, cynnyrch crefft a swyddi sy'n gysylltiedig â choetiroedd.

Er mwyn sicrhau'r holl fanteision sy'n deillio o ymwneud y gymuned â choetir, mae angen ymrwymiad ar ran perchennog y coetir a phobl leol ac mae angen helpu'r naill a'r llall i ddeall eu rolau o ran creu coetiroedd i bobl.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Cymunedau yn chwarae mwy o ran mewn prosesau gwneud penderfyniadau a'r gwaith o reoli coetiroedd a choed er mwyn iddynt sicrhau manteision o ran llesiant i fwy o bobl.
- CNC a rheolwyr coetiroedd a choed eraill yn y sector cyhoeddus yn cynnwys cymunedau lleol yn llawn yn y gwaith o gynllunio coetiroedd ac yn cydweithio lle y bo'n ymarferol a phriodol.
- Cyngor a chymorth yn cael eu rhoi i berchenogion coetir preifat er mwyn iddynt

allu ymgynghori â'r gymuned a chynnwys ffyrdd o sicrhau manteision i'r cyhoedd mewn cynlluniau rheoli coetir.

- Grwpiau cymunedol, CNC ac awdurdodau lleol a thirfeddianwyr preifat yn gallu datblygu cytundebau cyfreithiol a chael cyllid a'r cymorth sydd eu hangen i gynyddu'r amrywiaeth o gytundebau rheoli cymunedol, a'u hirhoedledd a'u dyfnder. Byddant hefyd yn gallu datblygu nifer o gyfleoedd i fusnesau coetir a chefnogi perchenogaeth gymunedol o goetiroedd.

4.2 Mae mwy o bobl yn cael budd o gyfleoedd addysg a dysgu a ddarperir mewn coetiroedd a choed, a ganddynt

Mae coetiroedd a choed yn cael eu defnyddio yng Nghymru gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol i gefnogi amrywiaeth eang o fentrau dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys dysgu yn yr awyr agored i gyflwyno'r cwricwlwm ysgol a chysylltu plant a phobl ifanc â natur, prosiectau gwyddoniaeth ar gyfer dinasyddion ac astudiaethau maes, dysgu ac achredu sgiliau coetir sy'n berthnasol i waith, gweithgareddau hamdden megis plethu basgedi, dysgu hamdden megis byw yn y gwyllt a chysiau ffotograffiaeth a dysgu drwy chwarae.

Dangoswyd bod lleoliad awyr agored, yn enwedig coetir, yn cefnogi dysgu confensiynol ac anffurfiol drwy gynnig amgylchedd diddorol lle y gall plant ac oedolion ddysgu. Mae coetiroedd yn cynnig adnodd cyfoethog ar gyfer amrywiaeth eang o bynciau ynghyd â lleoliad delfrydol i ddysgu sgiliau bywyd, megis gweithio mewn tîm a chyfathrebu. Mae rheoli coetiroedd a defnyddio coed i wneud cynnyrch hefyd yn gofyn am amrywiaeth eang o sgiliau. Gellir rheoli coetiroedd i ddarparu amgylchedd

hawdd ei addasu er mwyn diwallu anghenion dysgu grwpiau gwahanol iawn, gan amrywio o blant ag anawsterau dysgu i oedolion a phobl hŷn.

Mae dysgu mewn coetiroedd hefyd yn cynnig lleoliad delfrydol i gyflwyno cysyniadau megis cydnherthedd ecolegol, rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chyfrifoldeb byd-eang. Mae'r pynciau hyn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i gymdeithas addasu i newid yn yr hinsawdd a nodwyd eu bod yn ddiben craidd yng nghwricwlwm diwygiedig Cymru. Mae dysgu yn yr awyr agored hefyd yn dod â manteision sylweddol o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl, yn enwedig i blant, ac mae mentrau i gefnogi chwarae anffurfiol rheolaidd mewn coetiroedd yn ategu dysgu mwy strwythuredig.

Er gwaethaf y cynnydd mewn gweithgarwch dysgu yn yr awyr agored, prin yw'r disgyblion ysgol sy'n ymwybodol o goedwigaeth fel proffesiwn ac mae'r rhai sy'n ymuno â'r sector yn dod i wybod amdano drwy ffynonellau eraill. Mae angen mynd ati mewn ysgolion a cholegau i dynnu sylw at gyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â choetiroedd a hefyd at gymorth arall a ddarperir ar gyfer pobl sy'n chwilio am waith.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Mwy o bobl o bob oedran a chefnidir yn cael budd o goetir a choed hygyrch fel lleoliadau ar gyfer addysgu, dysgu a chwarae, a fydd yn meithrin gwell dealltwriaeth o goetiroedd a choed a'r manteision ehangach sy'n deillio ohonynt o ran ein llesiant amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ac yn sicrhau bod pobl yn ymddwyn mewn ffordd fwy gynaliadwy a chyfrifol.
- Yr ystad goedwig gyhoeddus yng Nghymru yn darparu coetiroedd diogel a hygyrch a reolir yn dda fel lleoliad ar gyfer dysgu i bobl o bob oedran a gallu ac yn annog perchenogion coetir preifat i gynnig darpariaeth debyg. Pwyslais arbennig yn cael ei roi ar ddarpariaeth mewn ardaloedd lle y ceir y lefelau cyrhaeddiad addysgol isaf.
- Datblygu a darparu adnoddau addysgol ac adnoddau dysgu sy'n gysylltiedig â choetir a choed sydd ar gael i athrawon ac addysgwyr eraill ac a ddefnyddir ganddynt, yn cael eu datblygu a'u darparu.
- Diwylliant o gyfrifoldeb at genedlaethau'r dyfodol a dinasyddiaeth foesegol sy'n seiliedig ar wybodaeth yn cael ei hybu drwy werthfawrogi a deall yr amgylchedd coetir ym mhob gweithgaredd dysgu a hyfforddiant mewn coetiroedd ac am goetiroedd.
- Pobl yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu hamdden sy'n gysylltiedig â choetir (ee crefftau hamdden) a chyfleoedd ar gyfer dysgu drwy chwarae.

4.3 Mae mwy o bobl yn byw bywydau iachach o ganlyniad i ddefnyddio a mwynhau coetiroedd a choed a byw'n agos atynt

Mae coetiroedd a choed yn gwneud cyfraniad sylweddol at les corfforol, meddyliol ac emosiynol pawb yng Nghymru a gallant wneud cyfraniad arbennig o werthfawr at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac at gefnogi strategaethau ataliol a therapiwtig ar gyfer llesiant sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor.

Cydnabyddir yn eang bellach fod iechyd yn golygu mwy na diffyg salwch yn unig a bod cyswllt annatod rhwng iechyd a lles a chyd-destun ffisegol, cymdeithasol ac economaidd bywydau pobl yn ogystal â'u cyfansoddiad genetig neu eu dewisiadau o ran ffordd o fyw. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr amgylchedd a'r o ran ffordd y defnyddir tir yn cael effaith sylweddol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl ac yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar y ffordd y mae unigolion yn byw eu bywydau ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, yn cael gwaith, yn cael gafael ar fwyd ffres lleol ac yn cael mynediad i fannau gwyrdd agored – pob un ohonynt yn angenrheidiol i sicrhau ffyrdd o fyw iach. Mae coetiroedd a choed yn sicrhau buddiannau iechyd pwysig drwy'r gwasanaethau ecosystemau a ddarperir ganddynt a thrwy annog gweithgarwch corfforol, adferiad meddyliol a rhyngweithio cymdeithasol. Golyga hyn fod gan goed a choetiroedd sydd wedi'u cynllunio'n dda ac a reolir yn dda, ar raddfa'r dirwedd, ar raddfa ardal leol a choed unigol, rôl bwysig i'w chwarae o ran diogelu a gwella iechyd a lles pobl.

Drwy liniaru gwres, lleihau'r perygl o lifogydd a gostwng lefelau sŵn, a gwella ansawdd aer a dŵr, bydd coed a choetiroedd yn dod yn fwyfwy pwysig er mwyn rheoli'r effeithiau ar iechyd sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, yn enwedig yn yr amgylchedd

adeiledig. Yn ogystal â diogelu iechyd pobl, gall y mathau hyn o effeithiau ei wella hefyd – er enghraifft, mae lleihau'r perygl o lifogydd yn gwella llesiant meddyliol pobl.

Ar yr un pryd mae coetiroedd a choed yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden egnïol, llonyddwch, gwerthfawrogiad gweledol a gwirfoddoli amgylcheddol, sydd i gyd yn sicrhau amrywiaeth eang o fanteision o ran llesiant. Cydnabyddir bod hamdden awyr agored yn cynyddu amllder, hyd a dwyster gweithgarwch corfforol. Gall manteision gwella ffitrwydd helpu i fynd i'r afael â'r problemau iechyd mwyaf difrifol rydym yn eu hwynebu yng Nghymru, oherwydd dangoswyd ei fod yn helpu i ostwng cyfraddau gordewdra, clefyd cardiofasgwlaidd, osteoporosis a diabetes math 2, yn ogystal â rhai canserau. Mae coetiroedd croesawgar a reolir yn dda yn cynnig lleoliad delfrydol i wneud ymarfer corff yn yr awyr agored, gan alluogi pobl i gysylltu â natur a datblygu patrymau gydol oes o fyw'n iach a fydd yn cefnogi eu llesiant yn yr hirdymor ac yn atal problemau iechyd y gellir eu hosgoi rhag codi yn y dyfodol.

Gall treulio amser mewn amgylchedd coetir naturiol hefyd fod yn fuddiol i'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl, newid ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith plant a'r glasoed, gwella gallu unigolion i ganolbwyntio'n well mewn ysgolion a gweithleoedd a helpu pobl i ymdopi â straen ac iselder. Cydnabyddir manteision iechyd a manteision therapiwtig coetiroedd yn eang gan y GIG mewn arferion megis 'presgripsiynau gwyrdd', ymyriadau sy'n seiliedig ar natur a thrwy fenter Coedwigoedd y GIG.

Er mwyn sicrhau'r manteision iechyd mwyaf posibl o goetiroedd a choed, bydd angen gwneud mwy na dim ond darparu mwy ohonynt. Bydd angen sicrhau hefyd eu bod yn hygyrch iawn i bobl – yn enwedig y rhai sydd â'r anghenion iechyd mwyaf.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Mwy o bobl yn byw bywydau iachach â lefelau llesiant uwch am eu bod yn gallu manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio a mwynhau coetiroedd a choed yn agos at eu cartrefi.
- Mwy o goetiroedd sy'n cael eu rheoli'n dda ledled Cymru ac sy'n sicrhau'r manteision hyn i bawb.
- Pob unigolyn ac yn enwedig y rhai sydd â'r angen mwyaf neu'r rhai sydd leiaf abl i gael mynediad i goetir ar hyn o bryd, yn cael cyfle i gael mynediad i goetir, p'un a yw'n eiddo cyhoeddus neu breifat.
- Cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn ystyried y defnydd y gellir ei wneud o goetir i gefnogi llesiant teg, hirdymor i bawb ac yn cynllunio ar gyfer eu defnyddio.

4.4 Mae mwy o bobl yn cael budd o fusnesau sy'n ymwneud â choetir a chyfleoedd cyflogaeth cysylltiedig

Mae coetiroedd a choed yn darparu llawer o adnoddau i'w defnyddio gan bobl, gan gynnwys coed ar gyfer adeiladu, coed tanwydd a golosg, anifeiliaid gwyllt a phlanhigion a ddefnyddir fel bwyd neu ar gyfer crefftau. Gall nentydd mewn coedwigoedd gyflenwi dŵr i gynhyrchu trydan a gall y coetir ei hun gynnig lleoliad ar gyfer darparu gwasanaethau masnachol. Felly, mae coetiroedd yn cynnig llawer o gyfleoedd i unigolion, BBaChau a mentrau cymdeithasol ddechrau a rhedeg busnesau, datblygu sgiliau gwaith, creu swyddi a bywoliaethau lleol a chynyddu gweithgarwch economaidd.

Mae cyfleoedd cyflogaeth yn dechrau gyda rheoli coetir ac mae gennym lawer o enghreifftiau yng Nghymru o amrywiaeth eang o fusnesau contractio tir. Mae rhai o'r busnesau hyn yn gcontractwyr coedwigaeth arbenigol tra bo eraill yn cynnig gwasanaethau mwy cyffredinol megis codi ffensys neu gynnal a chadw llwybrau. Mae gan yr is-sector hwn strwythur penodol gyda chyfuniad o gcontractwyr mawr â lefel uchel o fecaneiddio a chontractwyr bach sy'n defnyddio peiriannau llaw neu ddulliau mwy traddodiadol (ee torri a thrin coed gan ddefnyddio ceffylau) Mae angen yr ystod hon o raddfeydd a dulliau er mwyn darparu ar gyfer yr amrywiadau mawr o ran maint a chyflwr coetiroedd, mynediad iddynt ac amcanion perchenogion.

Mae coetiroedd a reolir yn dda yn darparu llif o ddeunyddiau crai, o ffeibr coed i ffrwythau a blodau y gellir eu cynaeafu a'u swmpwerthu. Fodd bynnag, mae ddiwydiannau prosesu yng Nghymru yn cynnig mwy o gyfleoedd cyflogaeth. Gellir addasu faint o werth sy'n cael ei ychwanegu at gynnyrch coetir a gall hyn gynnig cyfleoedd pwysig i greu swyddi lleol yn ogystal â photensial i gynyddu enillion economaidd eilaidd i gymunedau o fusnesau a mentrau mwy o faint. Mae strwythur presennol marchnadoedd coed yn aml yn golygu na all cymunedau brynu coed na

choed tanwydd o'u coetiroedd lleol. Lle y ceir busnesau coed lleol cymwys, gallai cyfleoedd sy'n ymateb i ofynion cymdeithas o ran mynd ati ar raddfa fach i werthu coed sy'n sefyll sicrhau manteision ychwanegol i'r gymuned, gan gynnwys cyflogaeth, mwy o gysylltiad rhwng pobl a'u coetir lleol a chyfrannu at economi gylchol effeithlon. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig lle mae cyfleoedd cyflogaeth yn brin.

Mae darparu cyfleusterau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth mewn coetiroedd yn gyfleoedd pwysig i sefydlu mentrau a chreu swyddi. Gall cyfleusterau hamdden arbenigol mewn coetiroedd ddenu ymwelwyr sydd wedyn yn cefnogi busnesau lleol eraill, gan gynnwys bwytaï a darparwyr llety. Er enghraifft, mae gan Gymru rai o'r llwybrau beicio mynydd gorau yn y byd yn ei choetiroedd ac mae cysylltiadau cryf â sefydliadau fel Croeso Cymru yn sicrhau bod y llwybrau eu hunain yn cael eu hyrwyddo'n dda ac y gall busnesau lleol fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y maent yn eu cynnig i'r economi leol. Mae coetiroedd hefyd yn darparu lleoliadau delfrydol ar gyfer gweithgareddau eraill megis saethu adar hela, cyrsiau byw yn y gwyllt a gwyliau chwilio am fadarch a all ychwanegu at yr hyn sydd gan y coetir i'w gynnig o ran twristiaeth. Gall cynnal digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol megis Rali Cymru Prydain Fawr hefyd ddenu cryn nifer o ymwelwyr ac incwm i economi Cymru.

Mae cynnyrch coetir hefyd yn cynnal amrywiaeth o fusnesau a mentrau cymdeithasol. Mae busnesau cymdeithasol yn gyfleoedd menter sy'n cynnwys, er enghraifft, ddarparu presgripsiynau gwyrdd (ee presgripsiynau am arweinwyr teithiau cerdded ar gyfer cyflyrau'r galon) neu arweinwyr Ysgolion Coedwig (sy'n cynnig rhaglenni dysgu a datblygu sgiliau). Mae mentrau cymdeithasol yn cwmpasu amrywiaeth ehangach o weithgareddau cynhyrchu incwm (gan gynnwys gwerthu coed) lle y caiff yr elw ei ailfuddsoddi yn amcanion cymdeithasol neu amgylcheddol y fenter.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Mwy o bobl yn cael gwaith a bywoliaethau o fentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd a choed a reolir yn dda.
- Cynnyrch coetir megis deunyddiau adeiladu o ansawdd uchel, cynnyrch nad ydynt yn goed a choed tanwydd yn cael eu cyflenwi i ddiwallu anghenion cymunedau gerllaw a chefnogi busnesau gwledig a lleol.
- Arloesi a busnesau a mentrau cymdeithasol newydd sy'n gysylltiedig â choetiroedd yn gallu ymsefydlu.
- Seilwaith twristiaeth a chwaraeon yn cael ei ddatblygu a'i gynnal mewn coetiroedd, gan helpu i gyflawni nodau twristiaeth Cymru, yn enwedig lle mae hyn yn sicrhau manteision eilaidd i gymunedau.
- Datblygiad cynaliadwy bywoliaethau sy'n gysylltiedig â choetiroedd yn cael ei gefnogi drwy Ganllawiau a Rheoliadau Cynllunio ac mewn Cynlluniau Llesiant Lleol.



Teneuo coed derw

5. Sector coedwigaeth cystadleuol a chynaliadwy

Mae'r farchnad cynnyrch coed yng Nghymru yn cael ei dominyddu gan fewnforion, sy'n golygu bod tyfwyr a gweithgynhyrchwyr coed yn gweithredu mewn amgylchedd hynod o gystadleuol. Amcangyfrifir bod y sector coedwigoedd yng Nghymru bellach yn cyfrannu £528.6m at yr economi genedlaethol ac yn cyflogi rhwng 8500 ac 11,300 o bobl yn uniongyrchol. Rydym yn cydnabod y rôl hollbwysig y mae coed o Gymru yn ei chwarae wrth ariannu gweithgarwch rheoli coetiroedd a chefnogi twf diwydiannau coedwig yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r rôl y mae coed yn ei chwarae fel adnodd adnewyddadwy

allweddol i gefnogi ein polisiau ar ddatblygu cynaliadwy, yr amgylchedd a datgarboneiddio.

Hefyd, mae mantais ariannol uniongyrchol yn deillio o'r sector twristiaeth y gellir ei phriodoli i goedwigoedd yng Nghymru. Mae yna hefyd gyfraniad ariannol anuniongyrchol at fanteision nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad megis newid yn yr hinsawdd. Mae'r adroddiad ar Brisio Adnoddau Coedwigoedd Cymru yn rhoi rhyw syniad o werthoedd y manteision hyn nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad sy'n deillio o goedwigoedd yng Nghymru ac mae hynny'n ychwanegu at ein gwybodaeth am yr hyn a ddarperir gan y sector.

Tabl 2: Gwerth blynyddol llifoedd gwasanaethau o goedwigoedd yng Nghymru

Gwasanaeth	Tynnu coed	Dal a storio carbon	Hamdden	Ansawdd aer	Cyfanswm
Gwerth, £ miliwn prisiau 2015	28.3	108	85	385	606.3

Fynhonnell: Priso Adnoddau Coedwigoedd Cymru, Forest Research Hydref 2017

Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o felinau llifio yn dibynnu'n fawr ar goed coniferaidd fel eu deunydd crai. Mae mwy na 60% o foncyffion a gynhyrchir yng Nghymru yn cael eu prosesu mewn melinau llifio yng Nghymru ac mae'n amlwg bod potensial i gynyddu gwerth coed a gynhyrchir yng Nghymru drwy weithgareddau prosesu eilaidd.

Mae'r sector coedwigaeth yng Nghymru, gan gynnwys gweithgareddau rheoli, cynaeafu a phrosesu, yn cynnwys llawer o fusnesau teuluol a leolir yn bennaf yng nghefn gwlad. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth gwerthfawr i gymunedau lleol. Mae llawer o'r mentrau hyn hefyd yn cyfrannu at y gwaith o reoli coetiroedd brodorol sydd, gan amlaf, yn llai o faint ac yn fwy amrywiol.

Mae'r sector yn cynhyrchu amrywiaeth o gynnyrch coed gan gynnwys byrddau panel, pren wedi'i lifio a ddefnyddir ar gyfer adeiladu, deunydd pecynnu, lloiau a ffensys, cynnyrch ynni coed megis peledi, sglodion coed, bêls tocion a choed tanwydd i'w ddefnyddio at ddibenion diwydiannol, masnachol a domestig yn ogystal â chynnyrch arbenigol megis golosg, dodrefn a chrefftau.

Ceir ardaloedd helaeth o goetir llydanddail a choetir fferm nas rheolir ar hyn o bryd yng Nghymru. Er nad yw'r holl goetiroedd hyn yn addas i'w rheoli mewn ffordd sy'n ymateb i ofynion y farchnad, gyda'i gilydd maent yn cynnig cyfle pwysig i gynhyrchu mwy o goed defnyddiadwy mewn ymateb i'r galw cynyddol, am ynni yn bennaf, gan helpu i ddatblygu

busnesau bach. Rydym am weld ton newydd o weithgarwch economaidd cynaliadwy yn y coetiroedd hyn a leolir yng Nghymru, er mwyn cyflawni nifer o ganlyniadau a nodir yn y strategaeth hon a chefnogi'r polisi ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

Mae'r angen i amrywio'r cymysgedd o rywogaethau a'r ffordd y caiff Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ei rheoli, a'r dyhead i wneud yr un peth ar draws yr adnodd coedwigoedd ehangach, gan gynnwys coetiroedd sy'n eiddo preifat, yn golygu y bydd heriau mawr yn wynebu'r sector prosesu yng Nghymru dros yr 20 i'r 30 mlynedd nesaf. Mae'r cwmnïau prosesu coed mawr, gan gynnwys melinau llifio, wedi buddsoddi'n helaeth er mwyn cynyddu'r gallu i brosesu'r coed a gynhyrchir o adnodd coetiroedd presennol Cymru ac ychwanegu gwerth atynt – yn arbennig y cynyddau conwydd a sefydlwyd gyntaf fel cyflenwad strategol wrth gefn o goed yn y cyfnod ar ôl y rhyfel. Roedd yr hyder hwnnw wedi'i seilio'n rhannol ar wybodaeth ddibynadwy am ansawdd a natur gweithgarwch cynhyrchu coed yn y dyfodol a hefyd hyder yn y gadwyn gyflenwi. Er mwyn gwireddu potensial adnodd coetiroedd mwy amrywiol yng Nghymru yn y dyfodol bydd angen buddsoddi ymhellach yn y gallu i brosesu a chael gwybodaeth dda am weithgarwch cynhyrchu coed yn y dyfodol.

Am yr holl resymau hyn rydym wedi mabwysiadu'r amcan strategol o gadw potensial coetiroedd i gynhyrchu ar y lefel bresennol a byddem yn disgwyl iddo gynyddu'n raddol wrth i goetiroedd newydd gael eu creu. Bwriadwn wneud hyn drwy gynyddu gorchudd coetir yng Nghymru a chefnogi dulliau cynaliadwy o reoli coetiroedd sy'n cael eu tanreoli ar hyn o bryd, gan fynd ati ar yr un pryd i gynnal cynnyrch o'n coetiroedd ein hunain yn y byrdymor i'r tymor canolig. Mae'r newidiadau a'r cyfleoedd hyn yn dod â sawl her i dyfwyr a phroseswyr

coed, yn ogystal â'r llywodraeth. Er mwyn cyflwyno'r newidiadau hyn, mae'n debygol y bydd angen i ddatblygiadau yn y farchnad greu galw amdanynt ac y bydd gofyn hefyd eu hysgogi drwy reoliadau a chymhellion; trosglwyddo cyngor a gwybodaeth; cydweithio â sectorau tir eraill; newid defnydd tir; darparu gwybodaeth a chymorth i fusnesau; yn ogystal â chadwyn gyflenwi gadarn.

Mae buddsoddi ac arloesi parhaus ym maes mecanieiddio ac mewn cyfarpar TG, ynghyd ag elw da, wedi arwain at lefelau uchel o fuddsoddiadau yn y sector coedwigoedd yng Nghymru a gwell sgiliau yn y rhannau o'r sector sy'n gysylltiedig â thir a phrosesu. Mae manteision datblygiad proffesiynol parhaus wedi cael mwy o gydnabyddiaeth drwy'r awydd i ennill statws Siartredig i goedwigwyr a thyfwyr coed a llwybr gyrfa clir drwy'r sector coedwigoedd. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn anodd denu newydd-ddyfodiaid i ddiwydiant sy'n rhoi llawer o foddhad ond sydd hefyd yn un heriol.

O ystyried y cyd-destun hwn sy'n newid, rydym wedi nodi pedwar canlyniad allweddol ar gyfer y sector coedwigaeth yng Nghymru, sef:

- Mwy o goed yn cael eu tyfu, eu prosesu a'u defnyddio yng Nghymru.
- Sicrhau bod y sector coedwigaeth yn parhau i fod yn gystadleuol ac yn gynaliadwy, gan gefnogi economi Cymru.
- Mwy o ddefnydd o goed fel adnodd adnewyddadwy pwysig.
- Gweithlu medrus, llwyddiannus yn y sector coedwigaeth a all addasu yn wyneb newid.

5.1 Mwy o goed yn cael eu tyfu, eu prosesu a'u defnyddio yng Nghymru

Mae ychwanegu gwerth at y coed sydd ar gael ar hyn o bryd yr un mor bwysig â chynyddu faint ohono sydd ar gael. Mae gan Gymru enw da eisoes am fuddsoddi ac arloesi wrth ddatblygu defnyddiau newydd ar gyfer coed a bod yn barod i fabwysiadu technolegau newydd sy'n cael eu datblygu mewn gwledydd eraill, a dylid annog y gwaith hwn.

Mae'r DU, gan gynnwys Cymru, yn mewnfario llawer iawn o goed a chynnyrch coed o bob cwr o'r byd. Mae cryn potensial inni wneud mwy o ddefnydd o goed a dyfir yn y wlad hon a datblygu ein gallu i gynhyrchu cynnyrch coed

o ansawdd uwch a fyddai'n ychwanegu gwerth at y gadwyn gyflenwi gyfan, gan amrywio o weithgareddau cynaeafu i broseswyr eilaidd. Byddai ychwanegu gwerth fel hyn yn helpu i ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol a'u hintegreiddio ymhellach, gan sicrhau bod economi Cymru yn fwy cadarn ar adeg pan fo'r galw byd-eang am goed ac, felly, gost mewnfario cynnyrch, yn debygol o gynyddu.

Bwriadwn ddarparu gwybodaeth fanylach am y coed defnyddiadwy sy'n dod ar gael o goetiroedd yng Nghymru er mwyn galluogi busnesau sy'n bodoli eisoes i addasu a busnesau newydd i ddatblygu er mwyn ymateb i newidiadau hirdymor.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Potensial coedwigoedd yng Nghymru i gynhyrchu yn cael ei ddiogelu yn y byrdymor ac yn cynyddu yn y dyfodol er mwyn i'r sector cyfan allu tyfu ac ehangu.
- Y sector coedwigoedd yn cael cymorth i fanteisio ar y cyfleoedd a goresgyn yr heriau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau sydd eu hangen i roi'r strategaeth hon ar waith, gan gydweithio ar draws y sector.
- Wrth amrywio coetiroedd, perchenogion yn dewis rhywogaethau â phriodweddau y mae marchnadoedd yn y dyfodol yn debygol o'u defnyddio (ee ar gyfer adeiladu, tanwydd, ffensys neu ddeunydd pecynnu).
- Buddsoddi yn y gwaith o reoli coetiroedd a chreu coetiroedd newydd yn yr hirdymor yn cael ei annog a'i gefnogi, gan gynnwys addasu ac arloesi er mwyn manteisio ar gyfleoedd newydd.
- Gwaith ymchwil a datblygu yn cefnogi arloesi, datblygu a throsglwyddo gwybodaeth mewn perthynas â'r canlynol: cynaeafu, trin, prosesu a datblygu cynnyrch.
- Cyngor yn cael ei roi i dyfwyr ar briodweddau coed ac addasrwydd gwahanol rywogaethau.
- Y sector yn cael cymorth i ysgogi'r galw am gynnyrch coetir o Gymru.
- Gwybodaeth gywir yn cael ei darparu am yr effaith a gaiff newidiadau hirdymor i goetiroedd yng Nghymru ar gyflenwadau coed yn y dyfodol.

5.2 Sicrhau bod y sector coedwigaeth yn parhau i fod yn gystadleuol ac yn gynaliadwy, gan gefnogi economi Cymru

Mae diwydiant coedwigaeth ffyniannus yn bwysig iawn i economi Cymru. Mae galw mawr am gynnyrch coed ac mae'n debygol o gynyddu oherwydd y ffocws ar gynaliadwyedd ac ymwybyddiaeth o ôl troed carbon deunyddiau. Bydd y ffactorau ysgogi hyn yn cynyddu'r galw am gynnyrch coed sydd â llai o ôl troed carbon o gymharu â llawer o ddeunyddiau eraill ac sydd hefyd yn cael ei gynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy.

Mae diwydiannau coed yng Nghymru yn gystadleuol ac yn gynaliadwy a bydd angen iddynt barhau i addasu a buddsoddi er mwyn sicrhau y gallant gystadlu â'r gorau yn y byd. Mae'n hanfodol bod y galw a'r farchnad am gynnyrch a gwasanaethau gwerth uwch

yn parhau i gynyddu ac y gall y sector coedwigoedd cyfan fanteisio ar y cyfle hwn. Rydym am annog diwylliant sy'n seiliedig ar goed yng Nghymru a'r DU er mwyn sicrhau mai coed fel deunydd cynaliadwy yw'r dewis cyntaf i gwsmeriaid a bod y diwydiant yn parhau i arloesi ac ymateb i anghenion cwsmeriaid.

Bwriadwn barhau i weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU er mwyn arwain a chefnogi gweithgarwch ymchwil a datblygu a hyrwyddo trosglwyddo gwybodaeth ar draws y sector coedwigoedd er mwyn galluogi busnesau a pherchenogion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Bydd hyn yn helpu i annog datblygu cynnyrch a phrosesau newydd a fydd yn gwneud y diwydiant yng Nghymru yn fwy cystadleuol ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu cydweithredol yn y sector coed.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Busnesau sy'n bodoli eisoes a rhai newydd yn ffynnu ar lawer o wahanol raddfeydd, gan ddefnyddio coed a dyfir yn y wlad hon a chyfrannu at economi Cymru.
- Y gadwyn gyflenwi gyfan yn cael ei hintegreiddio'n llawer gwell, gan gynnwys perchenogion, rheolwyr a chontractwyr, proseswyr sylfaenol, eilaidd a thrydyddol a'r defnyddiwr terfynol, gyda'r sector preifat yn rhoi arweiniad a chyfeiriad.

- Y sector preifat yn cymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch dewis rhywogaethau coed i amrywio coetiroedd ac yn llywio'r drafodaeth honno.
- Cymorth datblygu economaidd ar gael i fentrau o bob maint a arweinir gan y diwydiant er mwyn cynnal sector cadarn, meithrin gallu a datblygu cadwyni cyflenwi cadarnach.
- Mentrau cydweithredol yn parhau ym mhob rhan o'r sector cyfan.

5.3 Mwy o ddefnydd o goed fel adnodd adnewyddadwy pwysig

Mae coed yn adnodd adnewyddadwy pwysig gan fod eu gallu i storio carbon yn cyfrannu'n uniongyrchol at leihau ôl troed carbon Cymru a chyflawni'r uchelgais a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 y bydd allyriadau net o leiaf 80% yn is erbyn 2050 na'r llinell sylfaen a bennwyd mewn deddfwriaeth.

Mae'r galw am gynnyrch coed ardystiedig yn cynyddu, ac mae ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith defnyddwyr o faterion amgylcheddol, polisi cyhoeddus ar newid yn yr hinsawdd a rheoliadau i leihau ôl troed carbon adeiladau i gyd yn creu amodau ffafrïol ar gyfer marchnata coed a dyfir yn lleol, fel deunydd adeiladu cynaliadwy ac ar gyfer tanwydd carbon isel. Nid yw coed yn adnodd dihyssbydd yng Nghymru a rhaid inni sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ddeallus i ateb y galw hwnnw – ein blaenoriaethau yw ychwanegu gwerth at goed a dyfir yng Nghymru a chloi carbon mewn defnyddiau hirdymor. Rydym

hefyd am weld strategaethau ar gyfer lleihau ôl troed carbon Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i'r manteision o ran cylch oes cynaliadwy a'r manteision o ran llesiant sy'n deillio o ailddefnyddio, ailgylchu a llosgi coed. Mae'n debygol y bydd cyfleoedd i gynnyrch coed a chynnyrch sy'n seiliedig ar goed gymryd lle cynnyrch anadnewyddadwy a chynnyrch sy'n llygru megis plastigau a deunydd pecynnu.

Un o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r sector yng Nghymru yw marchnad sy'n cael ei dominyddu gan goed a fewnforir, nawr ac yn y dyfodol. Mae priodweddau coed yng Nghymru yn golygu bod yn rhaid i'r sector barhau i wneud y defnydd gorau o'r hyn sydd ganddo drwy arloesi a datblygu cynnyrch gan ddefnyddio technegau addasu coed a thechnegau creadigol eraill. Mae gan ddefnyddwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat rôl bwysig i'w chwarae o ran dewis deunyddiau ar gyfer adeiladu, gweithgynhyrchu a chyflenwadau tanwydd ac o ran polisiâu caffael.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Mwy o alw am gynnyrch pren a choed o Gymru, fel deunydd adeiladu cynaliadwy ac adnewyddadwy.
- Mwy o goed yn cael eu caffael yn lleol a mwy o gapasiti i brosesu coed yng Nghymru, y defnydd helaethaf posibl o goed a dyfir ac a brosesir yng Nghymru er mwyn cael y budd mwyaf posibl o adnodd nad yw'n ddihysbydd.
- Egwyddorion y dull sy'n seiliedig ar ddefnyddio, ailddefnyddio ac ailgylchu yn cael eu cymhwyso at y defnydd o goed.
- Y sector cyhoeddus yn rhoi arweiniad mewn perthynas â pholisïau caffael coed a chynnyrch coed sy'n adlewyrchu cynaliadwyedd y gadwyn gyflenwi gyfan.
- Llunwyr polisi, cynllunwyr, penseiri, y sector adeiladu ac eraill yn cydweithio i ysgogi'r 'galw' hwn gan y farchnad.

5.4 Gweithlu medrus, llwyddiannus yn y sector coedwigoedd a choetir a all addasu i newid

Mae'r sector coedwigaeth yn cwmpasu amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, o waith llaw sgiliau isel i uwch swyddi rheoli. Mae'r rolau hyn yn gofyn am sgiliau ymarferol, sgiliau technegol a sgiliau rheoli yn ogystal ag asiantau â sgiliau busnes datblygedig. Hefyd, mae angen iddo allu sicrhau'r manteision lluosog y mae gan goetiroedd a reolir yn dda i'w cynnig i economi Cymru, yr amgylchedd a phobl Cymru.

Mae ehangu'r sector coetiroedd a choedwigaeth yn gyfle i ddarparu llawer o swyddi gwledig medrus iawn sy'n talu cyflog da. Fodd bynnag, mae'r sector yn dal i wynebu her o ran sicrhau ei fod yn yrfa deniadol i bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ac i eraill. Nododd yr *Astudiaeth o Sgiliau'r Sector Coedwigaeth* 2017, a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr, mai prin yw'r disgyblion sy'n ymwybodol o goedwigaeth a choedyddiaeth fel proffesiwn. Fel arfer, mae'r rhai sy'n ymuno â'r sector coedwigoedd yn dod i wybod amdano drwy ffynonellau eraill.

Nododd yr *Astudiaeth o Sgiliau'r Sector Coedwigaeth* hefyd fod angen gwneud mwy i annog newydd-ddyfodiaid ar bob lefel o'r gadwyn gyflenwi a chynnig cyfleoedd hyfforddiant er mwyn iddynt ennill cymwysterau cydnabyddedig. Nodwyd bod anghenion hyfforddi a datblygu ar bob lefel o'r sector coedwigaeth ac yn enwedig yn achos newydd-ddyfodiaid. Mae'r anghenion hyfforddi hyn yn gofyn am fuddsoddiad a chymorth ym mhob rhan o'r sector coedwigoedd a dylid mynd ati i'w diwallu drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Mae hefyd yn bwysig cysylltu dysgu gydol oes mewn coetiroedd â'r hyn y maent yn ei gyfrannu at lesiant yng Nghymru. Os bydd plant yn defnyddio, yn mwynhau ac yn deall coetiroedd fel rhan o'u haddysg, wrth iddynt dyfu i fyny, maent yn fwy tebygol o ddeall diben a gwerth coetir a gwerthfawrogi'r amrywiaeth eang o fanteision sy'n deillio ohono. Er mai dim ond cyfran fach a fydd yn mynd ymlaen i weithio yn y sector, bydd poblogaeth fwy hyddysg yn helpu i hyrwyddo rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chefnogi'r defnydd o gynnyrch coetir adnewyddadwy o fewn cymdeithas Cymru.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Pobl yn cydnabod bod swydd yn y sector coedwigoedd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a sicrhau manteision o ran llesiant yng Nghymru.
- Mwy o bobl yn meddu ar y sgiliau cywir ar bob lefel o'r gadwyn gyflenwi a chyfleoedd i newydd-ddyfodiaid i'r sector coedwigaeth, gan gynnwys drwy brentisiaethau er mwyn mynd i'r afael â phrinder sgiliau.
- Mwy o lwybrau gyrfa a chymorth cadarn a dibynadwy ar gyfer cymwysterau proffesiynol.
- Mwy o gyfleoedd yn cael eu creu i bobl leol ymwneud â choetiroedd.
- Mwy o gyfleoedd i sefydlu lwybrau gyrfa cadarn drwy'r sector gan gynnwys hyfforddiant sgiliau a datblygiad proffesiynol parhaus yn y sector coedwigoedd.



Ardal o wlyptir, Gwarchodfa Natur Coedwig Pen-bre ger Llanelli

6. Ansawdd amgylcheddol

Mae coetiroedd a choed yng Nghymru yn hanfodol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn ein Polisi Adnoddau Naturiol i Gymru. Maent yn elfen bwysig o gymeriad tirwedd wledig a threfol Cymru, a'i diwylliant a'i threftadaeth. Mae gan goetiroedd a choed hynafol, coetir pori a chynefinoedd eraill sy'n llawn rhywogaethau, na ellir eu hailgreu, rôl hollbwysig i'w chwarae o ran darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau. Pennir ansawdd cynefinoedd coetir gan gyflwr a swyddogaeth priddoedd coetir, dŵr, bioamrywiaeth a threftadaeth, ac mae'n cyfrannu at ein tirwedd.

Mae amrywiaeth fiolegol yn sail i adeiledd a swyddogaeth ein hecosystemau ac mae iddi arwyddocâd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach. Mae gwella amrywiaeth, cysylltedd, maint a chyflwr ein coetiroedd drwy eu rheoli'n briodol a chreu coetiroedd newydd yn allweddol i sicrhau ecosystemau iach a chydnerth mewn coetiroedd.

Rydym wedi nodi pum canlyniad allweddol i ddiogelu a gwella ansawdd amgylcheddol coetiroedd a choed yng Nghymru ac ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau a ddarperir ganddynt:

- Mae gweithgarwch rheoli coetiroedd yn cyrraedd safonau uchel o ran stiwardiaeth amgylcheddol.
- Mae coetiroedd a choed o werth cadwraeth arbennig yn cael eu nodi, eu diogelu a'u rheoli mewn modd ffafriol.
- Mae bioamrywiaeth coetir yn cael ei chynnal ac mae coetiroedd brodorol yn cael eu rheoli mewn modd ffafriol.
- Mae coetiroedd a choed yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad tirwedd arbennig Cymru, at safleoedd sy'n bwysig oherwydd treftadaeth a diwylliant a'r dirwedd drefol.
- Mae coetiroedd a choed yn cyfrannu at y gwaith o reoli dŵr a phridd.

6.1 Mae gweithgarwch rheoli coetiroedd yn cyrraedd safonau uchel o ran stiwardiaeth amgylcheddol

Gwell stiwardiaeth amgylcheddol sydd wrth wraidd y strategaeth hon. Mae'n allweddol i ecosystemau iach a chydnerth mewn coetiroedd a bydd yn hollbwysig i sicrhau y gall coetiroedd ddarparu'r amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau y bydd eu hangen arnom dros y 50 mlynedd nesaf. Bydd ansawdd a chanlyniadau pob penderfyniad yn ymwneud â rheoli safle yn effeithio ar ecosystem y coetir a'i gallu i ddarparu'r gwelliannau amgylcheddol hirdymor yr ydym yn awyddus i'w gweld.

Nododd yr *Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol* ei bod yn ymddangos mai'r duedd yw bod mwy a mwy o goetiroedd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, a gwyddys fod 203,000ha o goetir yng Nghymru yn cael ei reoli yn unol â Safon Coedwigaeth y DU yn 2014. Fodd bynnag, nid yw tua 40% o goetiroedd yn cael eu rheoli o hyd, sy'n golygu eu bod yn llai cydnerth ac yn llai abl i ddarparu gwasanaethau ecosystemau. Er mwyn gweithredu camau i reoli coetiroedd unigol i sicrhau y caiff coedwigoedd eu rheoli'n gynaliadwy, mae angen cymhwyso Safon Coedwigaeth y DU a'i chyfres gysylltiedig o ganllawiau yn well ac yn fwy effeithiol. Mae'n bwysig ein bod yn cael sicrwydd bod y safonau cywir yn cael eu rhoi ar waith. Felly, rydym o blaid gwneud defnydd helaethach o Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU, y gellir ei harchwilio, fel modd i'n galluogi i gael y sicrwydd hwnnw.

Mae newid yn yr hinsawdd yn cyflwyno heriau sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol a phlâu a chlefydau, a all effeithio ar yr amrywiaeth o rywogaethau coed unigol a'u cydnerthedd. Mae i hyn, yn ei dro, oblygiadau i gyfansoddiad mathau o goetir a chynefinoedd coetir a'r fioamrywiaeth y gallant ei chynnal ac o ran sicrhau manteision ehangach megis cymeriad tirwedd a gweithgarwch cynhyrchu masnachol.

Mae sawl rhywogaeth frodorol ac estron oresgynnol sydd i'w gweld ar goetir yn effeithio'n ddirfawr ar allu perchenogion coetir i gyflawni llawer o'r canlyniadau a bennwyd ar gyfer y strategaeth hon, gan gynnwys cynyddu amrywiaeth coetiroedd. Mewn rhai achosion, mae'r rhain wedi cyfrannu at y risg y caiff clefydau eu cyflwyno ac y byddant yn lledaenu. Ni ellir ystyried yr un o'r effeithiau a gaiff rhywogaethau megis y wiwer lwyd, ceirw a rhododendron, heb ystyried polisïau eraill na buddiannau ehangach cymdeithas. Am y rheswm hwn rydym yn parhau i ymdrin â'r materion hyn mewn ffordd strategol a phenodol. Byddwn yn parhau i annog rhannau eraill o'r llywodraeth, yn ogystal â'n partneriaid cyflawni a'n rhanddeiliaid, i gydweithio'n agos er mwyn datblygu dulliau gweithredu i Gymru gyfan a'u rhoi ar waith er mwyn cyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

Mae troseddau sy'n ymwneud â bywyd gwyllt yn broblem mewn rhai coetiroedd, lle mae rhywogaethau prin dan fygythiad oherwydd

pobl sy'n casglu planhigion ac wyau.

Mae gweithgarwch nas caniateir megis tynnu gwrychoedd, cwmpo coed heb drwydded a mathau eraill o niwsans amgylcheddol megis tipio anghyfreithlon, mynediad i gerbydau oddi ar y ffordd a thanau anghyfreithlon hefyd yn rhoi pwysau ar ecosystemau coetiroedd.

Mae coetir, yn enwedig coetir hynafol, yn cynnal mwy o rywogaethau sydd dan fygythiad ac sy'n agored i niwed nag unrhyw gynefin arall. Mae coed a choetiroedd hefyd yn arbennig o bwysig i beillwyr am eu bod yn ffynhonnell gyffredin o baill a neithdar. Weithiau gall gwaith rheoli coetir beryglu rhywogaethau a warchodir megis pathew'r cyll ac ystlumod. Yn yr un modd, gall diffyg gwaith rheoli effeithio ar gyflwr y cynefinoedd y mae'r rhywogaethau hyn yn byw ynddynt. Mae'n bwysig bod pobl yn deall sut y gall defnyddio'r arferion gorau wrth reoli coetir helpu i ddiogelu bywyd gwyllt, defnyddwyr coetiroedd a chynefinoedd.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Pob coetir a choeden yn cael ei r(h)eoli'n gynaliadwy i safonau stiwardiaeth amgylcheddol uchel, gan ddiogelu a gwella'r ystod lawn o wasanaethau ecosystemau drwy gymhwyso Safon Coedwigaeth y DU yn ehangach ac yn fwy effeithiol a sicrhau bod mwy o goetiroedd yn cael eu rheoli yn unol â safonau archwiliadwy megis Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU.
- Rheolwyr coetiroedd yn defnyddio'r technegau rheoli mwyaf priodol i gyflawni amcanion safle-benodol, sy'n cyfrannu at amcanion mwy strategol ar raddfa tirwedd sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau.
- Effeithiau newid yn yr hinsawdd, yn enwedig tywydd eithafol, plâu a chlefydau yn cael eu cyfleu a chynlluniau yn cael eu llunio i'w rheoli er mwyn gwneud coetiroedd yn fwy cydnerth.
- Rhywogaethau brodorol ac estron goresgynnol yn cael eu rheoli gan ddefnyddio dull gweithredu strategol a phenodol ar raddfa tirwedd drwy weithio mewn partneriaeth a chydweithredu.
- Rheolwyr coetiroedd, perchenogion ac awdurdodau gorfodi yn cydweithio i leihau niwsans amgylcheddol, troseddau sy'n ymwneud â bywyd gwyllt a gweithgareddau anghyfreithlon.
- Diwylliant rheoli coetir o rannu llwyddiannau, trosglwyddo gwybodaeth am fygythiadau newydd a chynyddol a allai lesteirio'r gwaith hwnnw, a dysgu o broblemau, sy'n sicrhau stiwardiaeth amgylcheddol o safon uwch.

6.2 Mae coetiroedd a choed o werth cadwraeth arbennig yn cael eu nodi, eu diogelu a'u rheoli mewn modd ffafriol

Mae Polisi Adnoddau Naturiol Cymru yn nodi ymrwymiad i reoli coed a choetiroedd sydd â gwerth amgylcheddol uchel yn ofalus, gan gynnwys safleoedd coetir hynafol, coed hynafol a choed treftadaeth, sy'n ffynhonnell unigryw sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ecosystemau.

Dim ond tua 5% o goetiroedd yng Nghymru sydd â statws cadwraeth dynodedig. O'r rhain, mae tua 39% yn goetiroedd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, gyda'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod tua 30% o'r coetiroedd hyn mewn 'cyflwr ffafriol'. Mae prosesau coetir yn gweithio dros gyfnodau hir iawn o amser, sy'n golygu ei bod yn bosibl na sicrhau statws 'cyflwr ffafriol' am beth amser, hyd yn oed os oes trefniadau rheoli priodol ar waith a bod cyflwr y coetir yn gwella. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli ar ran Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru y gronfa ddata o'r camau sydd angen eu cymryd ar safleoedd er mwyn sicrhau cyflwr ffafriol.

Nid yw'r rhan fwyaf o'r coetiroedd lled-naturiol hynafol a choetiroedd brodorol eraill yng Nghymru yn eiddo cyhoeddus. Gwyddom fod llawer o'r adnodd gwerthfawr hwn yn dameidiog ac mewn mannau anghysbell a'i fod yn cyfrif am ran helaeth o'r 40% o goetir nas rheolir yng Nghymru. Dangosodd rhaglen LIFE Natura 2000 mai diffyg trefniadau ar gyfer rheoli coetir neu drefniadau rheoli gwael oedd y prif bwysau a oedd yn effeithio ar gyflwr y safleoedd hyn.

Mae coetir a choed hynafol yn parhau i ddiflannu drwy gael eu dinistrio'n uniongyrchol gan waith datblygu neu o ganlyniad i goed unigol yn cael eu hesgeuluso ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at y dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth. Ar ôl y rhyfel, cliriwyd llawer o goetiroedd hynafol ac fe'u hailblannwyd â chonwydd estron sy'n tyfu'n

gyflym er mwyn darparu adnoddau coed strategol ar gyfer y dyfodol. Mae bron traean o'r Safleoedd Coetir Hynafol yng Nghymru yn cynnwys y Planhigfeydd hyn ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS). Fodd bynnag, mae llawer o safleoedd wedi cadw nodweddion sydd o ddiddordeb ecolegol a diwylliannol ac, os cânt eu rheoli mewn modd sensitif a phriodol, gellir eu hadfer a'u troi'n ôl yn goetiroedd brodorol. Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran adfer rhai o'r Safleoedd Coetir Hynafol hyn i gyflwr mwy naturiol, gyda thargedau o fwy na 5000 hectar wedi'u pennu ar gyfer Ystad Coetir Llywodraeth Cymru ei hun.

Lansiwyd rhestr wedi'i diweddarau o Safleoedd Coetir Hynafol yn 2011. Gan ddefnyddio'r rhestr hon, ein nod yw graddol adfer pob Safle Coetir Hynafol sy'n eiddo inni i gyflwr mwy naturiol, a pharhau i'w reoli er mwyn gwella ei gyflwr ecolegol. Yr eithriad i hyn fydd y Safleoedd Coetir Hynafol hynny y mae gwaith asesu wedi dangos nad oes ganddynt ddigon o goetir hynafol ar ôl i allu cael eu hadfer yn llwyddiannus. Os na fydd yn bosibl adfer Safle Coetir Hynafol, ar ôl ystyried y dystiolaeth weddilliol, efallai y bydd newid cymeriad coetir yn dal i fod yn briodol am resymau sy'n ymwneud â'r dirwedd ehangach neu resymau ecolegol neu ddiwylliannol. Byddwn yn dilyn canllawiau adfer arfer gorau a chaiff y rhaglen adfer ei blaenoriaethu ar sail yr ystyriaethau ehangach hyn o botensial adferiad ecolegol, ac ar sail safleoedd sy'n wynebu'r perygl mwyaf a ffactorau eraill megis pwysigrwydd diwylliannol.

Byddwn yn dal yn awyddus i weld y Safleoedd Coetir Hynafol hyn a fydd wedi'u hadfer yn gweithredu fel safleoedd cynhyrchiol, yn ogystal â darparu'r ystod lawn o fanteision amgylcheddol a chymdeithasol y gall coetiroedd hynafol sydd wedi'u hadfer eu cynnig. Mae hyn yn golygu parhau i reoli gweithgarwch cynhyrchu coed ac, felly, rydym yn rhagweld proses raddol a pharhaus o drosglwyddo i gyflwr mwy naturiol, gan greu

coetir sy'n cynnwys cyfuniad o rywogaethau a mathau amrywiol o gellïoedd. Oherwydd hyn, bwriadwn ganiatáu i rywogaethau estron aildyfu os nad yw hynny'n peri risg na chyflawnir y nod cyffredinol o adfer cynefin ac os yw'n ychwanegiad defnyddiol at y potensial cynhyrchu – mewn achosion o'r fath bydd yn gwbl gyson â'n polisi adfer. Rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl y bydd gan berchenogion coetiroedd eraill amcanion gwahanol ar gyfer eu Safleoedd Coetir Hynafol, ond byddwn yn parhau i annog mabwysiadu arferion tebyg.

Mae pryder, y bydd cynnydd pellach o ran adfer coetiroedd yn golygu, dros amser, y bydd bod llai o goed yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru, am fod nifer o'r safleoedd hyn yn addas iawn i dyfu rhywogaethau estron o ansawdd uchel. Mae adroddiad diweddar gan Coed Cadw yn awgrymu na fydd gweithgarwch adfer Safleoedd Coetir Hynafol yn cael fawr o effaith ar argaeledd coed meddal yng Nghymru yn yr hirdymor. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryder hwn a'n nod yw helpu i fynd i'r afael ag ef drwy ein dwy strategaeth ar gyfer sicrhau bod mwy o goetiroedd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy a chynyddu'r gorchudd coetir cyffredinol yng Nghymru.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Safleoedd coetir o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol yn cael eu rheoli mewn ffordd ffafriol o safbwynt ecolegol, ac yn gallu addasu i newid yn yr hinsawdd.
- Mwy o wybodaeth am goetir pori, parcdir a choed hynafol yng Nghymru, er mwyn inni allu cofnodi a monitro niferoedd a chyflwr y coed hyn yn well.
- Yn ein parciau, ein gerddi, ein trefi a'n hardaloedd gwledig, fod coetiroedd, coed unigol ac yn arbennig goetiroedd hynafol a choed hynafol yn cael eu gwerthfawrogi a'u rheoli'n well oherwydd eu gwerth i fioamrywiaeth, tirwedd, treftadaeth a diwylliant, er mwyn iddynt gael eu diogelu ar gyfer y dyfodol.
- Systemau diogelu ar gyfer coed a choetiroedd pwysig yn cael eu hatgyfnerthu a'u hymgorffori mewn polisiau defnydd tir.
- Pob Safle Coetir Hynafol ar ein Hystad Coetir yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer ei adfer, ar ôl ystyried y dystiolaeth weddilliol a ffactorau ehangach sy'n ymwneud ag ecoleg, tirwedd a diwylliant; ac yn cael eu graddol adfer i gyflwr mwy naturiol gyda gwaith rheoli parhaus i wella eu cyflwr ecolegol a, lle y bo'n briodol, gynhyrchu coed.
- Perchenogion coetir eraill yn cael eu hannog i reoli eu coetir hynafol ac adfer eu Safleoedd Coetir Hynafol.

6.3 Mae bioamrywiaeth coetir yn cael ei chynnal ac mae coetiroedd brodorol yn cael eu rheoli mewn modd ffafriol

Mae pob coetir, gan gynnwys coetiroedd conwydd a blannwyd yn ystod yr 20fed ganrif, yn darparu cynefin i amrywiaeth eang o fflora a ffawna ond mae rhai mathau o goetir yn bwysicach nag eraill o safbwynt bioamrywiaeth. Mae coetiroedd llydanddail lled-naturiol yn cyfrif am chwech o'r eitemau a gofnodir ar y rhestr dros dro o gynefinoedd o bwys mawr yng Nghymru ac maent yn cynnal 39% o'r rhywogaethau o bwys mawr. Maent hefyd yn cynnwys saith cynefin a restrir o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE. Nododd SoNaRR (2016) fod eu statws cadwraeth cyffredinol yn anffafriol ond bod tuedd i goetiroedd gael eu rheoli mewn modd mwy ffafriol lle roedd cytundebau a phrosiectau lleol ar waith. Dim ond statws rhywogaethau unigol ar gyfer nifer gyfyngedig o rywogaethau proffil uwch sy'n hysbys inni ond mae darparu cynefin o ansawdd da yn hanfodol i hyfywedd bioamrywiaeth coetiroedd. Mae angen rheoli'r coetiroedd hyn yn briodol i wella eu cyflwr a'u gwneud yn fwy cydnerth er mwyn cynyddu a diogelu'r amrywiaeth eang o rywogaethau a gynhelir ganddynt. Bydd rhaglenni megis rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru yn gwella'r sail dystiolaeth.

Mae angen coetiroedd amrywiol mawr a bach ar Gymru, sy'n cynnwys conwydd a rhywogaethau llydanddail, yn ogystal â gwrychoedd a choed gwrychoedd.

Bwriadwn dargedu gwaith i ehangu coetir brodorol, a hynny'n bennaf ar sail potensial ecolegol safleoedd unigol ac egwyddorion rhyng-gysylltedd cynefinoedd lled-naturiol. Yn ogystal ag adfer safleoedd coetir hynafol, gellid addasu llawer o fathau o goetir i gyflwr mwy naturiol, gan sicrhau manteision sylweddol i fioamrywiaeth a pharhau i ddarparu cynnyrch coed y gellir ei farchnata. Mae'n rhaid inni fod yn ofalus er mwyn sicrhau y defnyddir rhywogaethau priodol o ffynonellau dibynadwy er mwyn osgoi cyflwyno plâu a chlefydau.

Mae'n bwysig diogelu strwythur a'r modd y mae rhwydweithiau o gynefinoedd coetir yn gweithredu a, lle y bo angen, ddadwneud y broses o ddarnio cynefinoedd lled-naturiol. Drwy wella rhwydweithiau coetiroedd drwy greu coetiroedd a gwrychoedd newydd, byddwn yn ei gwneud yn haws i boblogaethau bywyd gwyllt gyrraedd cynefinoedd newydd a symud mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd. Rydym yn cydnabod y gall dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar rwydweithiau ecolegol gynnig cyfleoedd i wasgaru, nid yn unig i rywogaethau y byddem yn hoffi eu gweld yn gwasgaru, ond hefyd i bathogenau a rhywogaethau problemus fel y wiwer lwyd. Er mwyn gwella rhwydweithiau coetiroedd bydd angen dull strategol sydd wedi'i integreiddio â defnyddiau tir eraill ac sy'n sensitif i anghenion lleol.

Mae Cynllun Adfer Natur Cymru (NRAP), y bwriedir iddo helpu i gyflawni targedau rhyngwladol Aichi, yn nodi ymrwymïadau i gymryd camau i wella bioamrywiaeth a adlewyrchir yn y canlyniadau isod.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Gwell cefnogaeth i brosesau gwneud penderfyniadau a rheoli er mwyn gwella cyflwr cynefinoedd coetir brodorol â blaenoriaeth, a choetiroedd sy'n cynnal rhywogaethau â blaenoriaeth.
- Ein hystad goedwig gyhoeddus yn cael ei rheoli yn unol â Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU er mwyn gwella cyflwr ecolegol cynefinoedd coetiroedd brodorol â blaenoriaeth ar ein hystad er budd rhywogaethau coetir (gan gynnwys y rhai sy'n dibynnu ar goetiroedd sy'n cynnwys rhywogaethau estron), a rheolwyr coetir eraill yn cael eu hannog i wneud yr un peth.
- Coetir nad yw'n goetir hynafol ar ein hystad ein hunain yn cael ei addasu i gyflwr mwy naturiol yn unol â Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU gan ddefnyddio canllawiau arfer gorau, a rheolwyr coetir eraill yn cael eu hannog i wneud yr un peth.
- Lle mae manteision amlwg o ran gwasanaethau ecosystemau, parhau i adfer cynefinoedd agored â blaenoriaeth megis mawn dwfn ar ein Hystad Coetir, yn unol â'r canllawiau priodol; rheolwyr coetir eraill yn cael eu hannog i wneud yr un peth. Gwneir iawn am orchudd coetir a gollir drwy greu coetiroedd newydd mewn mannau eraill.
- Y rhwydwaith coetiroedd yn cael ei atgyfnerthu mewn ardaloedd allweddol yng Nghymru drwy wella trefniadau rheoli'r coetiroedd presennol, creu coetiroedd a gwrychoedd newydd, targedu ymdrechion cadwraeth neu wneud y mannau rhwng coetiroedd yn fwy addas i rywogaethau coetir (heb niweidio rhywogaethau â blaenoriaeth sy'n dibynnu ar gynefinoedd agored).
- Polisi defnydd tir yn annog rheolwyr coetir preifat i gymryd camau i atgyfnerthu'r rhwydwaith coetiroedd, gan ystyried tystiolaeth am ymyriadau ar raddfa tirwedd ac adlewyrchu anghenion ac effeithiau lleol.

6.4 Mae coetiroedd a choed yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad tirwedd arbennig Cymru, safleoedd sy'n bwysig oherwydd treftadaeth a diwylliant a'r dirwedd drefol

Mae llawer o'r tirweddau gorau sydd yng Nghymru yn dibynnu ar y coetiroedd, y coetir pori, y coed a'r gwrychoedd sy'n rhan ohonynt am eu cymeriad arbennig, ac mae arnynt angen yr amddiffyniad a gynigir gan ddulliau priodol o reoli coetir. Yn ychwanegol at hyn mae cyfle da i greu mwy o dirweddau arbennig yng Nghymru, drwy greu a rheoli mwy o goetiroedd a gwrychoedd mewn modd priodol.

Mae coed hynafol yn adnodd diwylliannol sy'n cysylltu pobl â lle, amgylchedd a diwylliant (y gorffennol a'r presennol), ac sydd hefyd yn darparu cynefin di-dor i rai mathau o gen, mwsoglau a ffyngau sy'n prinhau mewn tirweddau gwledig a threfol fel ei gilydd. Yn rhy aml o lawer mae coed hynafol, a ddisgrifir weithiau fel henebion gwyrdd, yn cael eu hystyried yn broblem yn hytrach nag ased, ac ni ofelir amdanynt yn iawn. Gall mwy o wybodaeth am eu lleoliad a'u statws ein helpu i sicrhau y caiff y coed hyn eu diogelu a'u rheoli'n effeithiol.

Mae coed sydd mewn gwrychoedd yn aml yn cael eu hanwybyddu a'u rheoli'n wael ac mae risg y byddant yn cael eu difrodi gan dda byw. Ac eto, maent yn nodweddion amlwg yn y dirwedd ac yn darparu safleoedd bridio, bwyd a chysgod i lawer o rywogaethau. Mae gennym rai coed brodorol prin yng Nghymru, er enghraifft cerddinen Mynwy a cherddinen y Darren Fach, ynghyd â rhai coed godidog o rywogaethau estron mewn parciau a gerddi.

Gall coetiroedd a pharciau coediog fod yn nodweddion hanesyddol neu archaeolegol ynddynt eu hunain sy'n cyfrannu at gymeriad y dirwedd. Er bod gorchudd coetir, mewn llawer o achosion, yn diogelu cyfanrwydd archeolegol safleoedd treftadaeth mae achosion lle gall gwreiddiau coed achosi difrod, ac mae'n bosibl y bydd angen gofal arbennig ar safleoedd o'r fath. Mae canrifoedd o anheddu yng Nghymru wedi gadael eu hôl, ac mae rhai tirweddau hanesyddol lle na fyddai coetir newydd yn briodol.

Roedd gorchudd y canopi coed trefol yng Nghymru yn cyfateb i 16.9% yn 2009 – sy'n golygu ei bod ynghanol tabl gwledydd y byd. Ceir y lefel isaf o orchudd coed mewn ardaloedd â dwysedd uchel o dai, yn aml mewn ardaloedd difreintiedig. Mae coed yn cyfrannu at iechyd a llesiant, yn gwella ansawdd aer ac yn gwrthsefyll eithafion newid yn yr hinsawdd drwy roi cysgod a darparu seilwaith gwyrdd. Mae eu cyfraniad at amgylchedd mwy deniadol hefyd yn sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol drwy fewnffuddsoddiad, prisiau eiddo a lleihau troseddau. Cydnabuwyd hyn drwy ddarparu cymorth i wella a chynyddu seilwaith gwyrdd ar raddfa tirwedd, ar raddfa leol ac ar raddfa fach, yn yr amgylchedd trefol a'r amgylchedd ehangach. Fodd bynnag, mae coed trefol dan bwysau gan waith datblygu a diffyg blaengynllunio ar gyfer plannu coed newydd yn eu lle.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Coetiroedd, coed a gwrychoedd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad tirwedd arbennig Cymru, ei hamgylchedd hanesyddol a'i threftadaeth ddiwylliannol.
- Tirweddau coediog presennol a hanesyddol yn cael eu diogelu, gan ddatblygu er mwyn ystyried newid mewn gwerthoedd a dewisiadau diwylliannol a'u dylanwad ar dirwedd weithredol.
- Coed unigol, coed hynafol, coetir pori a choetiroedd yn ein hardaloedd trefol ac yng nghefn gwlad yn cael eu deall, eu diogelu a'u rheoli'n well oherwydd eu pwysigrwydd diwylliannol, eu hansawdd esthetig a'u gwerth treftadol.
- Gwerth archaeolegol yn y coetir yn cael ei barchu, yn ogystal ag archaeoleg y coetir; wrth greu coetiroedd newydd; safleoedd treftadaeth sy'n bodoli'n barod yn cael eu diogelu rhag difrod a chyfanrwydd tirweddau hanesyddol yn cael ei sicrhau.
- Ymwelwyr yn gallu profi hanes diwylliannol coetiroedd a'u nodweddion hanesyddol, yn enwedig Safleoedd Coetiroedd Hynafol.
- Mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o gynnyrch coed o Gymru wrth adnewyddu adeiladau hanesyddol.

6.5 Mae coetiroedd a choed yn cyfrannu at y gwaith o reoli dŵr a phridd

Yn y man iawn, gall coetiroedd fod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol megis llygredd gwasgaredig, dŵr o ansawdd gwael ac erydu pridd. Gallant hefyd ddal dŵr ffo yn ôl, lleihau'r perygl o lifogydd a chynnal llifau yn ystod tywydd sych. Er mwyn cael y canlyniadau gorau ar gyfer rheoli dŵr a phridd, bydd angen plannu coetiroedd a choed newydd mewn lleoliadau priodol, ac mae'n bosibl y bydd angen rheoli coetiroedd sy'n bodoli'n barod mewn ffordd wahanol yn y dyfodol.

Mae gwreiddiau coed yn ei gwneud yn haws i briddoedd amsugno dŵr glaw, felly mae llai o ddŵr yn llifo i ddraeniau ac afonydd – gall hyn fod yn ddefnyddiol yn rhannau uchaf systemau afonydd lle ceir mwy o lawiad. Mae gan wrychoedd, er eu bod yn bwysig o safbwynt cysylltedd a bioamrywiaeth, rôl i'w chwarae hefyd wrth reoli dŵr drwy ei ddal. Yn bellach i lawr yr afon, pan fo glaw trwm yn achosi i lefel y dŵr mewn afonydd godi, gellir lleihau'r perygl o lifogydd drwy arafu llif y dŵr, a gall coetiroedd fod yn ffordd gosteffeithiol o wneud hyn. Gall boncyffion a changhennau sydd wedi disgyn ffurfio argaeau a phyllau coediog sy'n helpu i gyfoethogi cynefinoedd dŵr croyw ac arafu llif y dŵr.

Gall coetiroedd sydd wedi'u creu ger cyrsiau dŵr, ac sy'n cael eu cynllunio a'u rheoli'n ofalus, leihau'r risg o erydiad pridd, llygredd a maethynnau'n llifo o gaeau cyfagos. Mewn ardaloedd trefol gall coed gyfrannu seilwaith gwyrdd, megis Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS) a fydd yn orfodol ar gyfer datblygiadau newydd. Mae gwreiddiau coed yn cryfhau glannau nentydd ac mae planhigion coetiroedd yn dal ffynonellau llygredd gwasgaredig cyn iddynt gyrraedd y cwrs dŵr. Mae coed yn bwysig fel ffynhonnell bwyd a chysgod i fywyd gwyllt y nentydd, a gall y cysgod ysbeidiol a ddarperir gan goed ar lan afonydd helpu i gymedroli tymheredd dŵr er budd pysgod a thrychfilod (ond mae'n hanfodol eu rheoli, am fod gorchudd trwchus o goed yn gallu niweidio ecosystem yr afon). Mewn cymhariaeth â phorfa, gall coetir ddefnyddio mwy o ddŵr, fel bod llai o ddŵr ar gael mewn dalgylch, a bydd yn bwysig rheoli'r effaith hon drwy amrywio'r dewis o rywogaethau, oedran y coed a maint y gorchudd coed. Bydd gwaith ymchwil a monitro parhaus yn bwysig, a gall effaith gadarnhaol coetir ar ansawdd dŵr, tirwedd a'r gwerth cysylltiedig ar gyfer gweithgareddau hamdden fod yn drech nag unrhyw effaith ar gyflenwadau dŵr.

Dyma beth yr hoffem ei weld yn digwydd:

- Coetiroedd sy'n bodoli eisoes yn cael eu rheoli a choetiroedd a gwrychoedd newydd yn cael eu creu gan gyfrannu'n llawn at ddiogelu a rheoli dŵr a phridd, yn lleol ac ar lefel dalgylch.
- Dull mwy strategol ac integredig o wneud penderfyniadau ynghylch defnydd tir a chmau rheoli tir, fel bod coetiroedd yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o wella ansawdd amgylcheddol, yn enwedig adnoddau dŵr a phridd, yn lleol ac ar lefel dalgylch yng Nghymru.
- Dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar brosesau naturiol yn cael eu prif ffrydio ledled Cymru fel bod coetiroedd a choed yn cael eu defnyddio, lle y bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod llai o ddŵr wyneb yn llifo o rannau uchaf dalgylchoedd ein hafonydd, a rheoli'r perygl o lifogydd yn rhannau isaf afonydd ac ardaloedd trefol.
- Pobl yn cydnabod pwysigrwydd coed unigol mewn ardaloedd gwledig a threfol a'r manteision sy'n deillio o goed yn cael eu mesur a'u cydnabod mewn prosesau gwneud penderfyniadau.



Arweinydd a disgyblion Ysgol y Goedwig yn cario coeden wedi'i chwmpo i adeiladu lloches, Ysgol y Goedwig Sir y Fflint.

7. Cyflawni Coetiroedd i Gymru

Mae'r strategaeth hon wedi nodi'r canlyniadau sydd eu hangen arnom gan goetiroedd a choed, er budd economi, amgylchedd a phobl Cymru, ac er mwyn sicrhau ffyniant i bawb. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, yng nghyd-destun yr heriau sy'n gysylltiedig â defnyddio a rheoli tir, bydd angen inni ddilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn gofyn inni weithredu yn yr hirdymor, er mwyn atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf neu waethgu ac ystyried sut mae pob canlyniad yn rhyngweithio â chanlyniadau eraill a gwaith sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. Mae pob un sy'n rhan o'r sector cyhoeddus yn cael eu hymrwymo bellach gan yr egwyddor hon i gydweithio a chynnwys pobl â diddordeb yn y gwaith o gyflawni'r canlyniadau rydym am eu gweld.

Er mwyn gweithredu'r strategaeth rydym wedi nodi ar gyfer pob un o'r canlyniadau yr hyn yr hoffem ei weld yn digwydd ac yn y bennod hon rydym yn esbonio sut rydym yn bwriadu gwireddu hyn. Caiff y Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd yn 2015 (a fydd yn para tan 2020) ei ddiweddarau er mwyn sicrhau ei fod yn llywio'r sector cyhoeddus i gynnwys coetiroedd a choed yn ei amcanion llesiant a'i gynlluniau. Bydd y cynllun hefyd yn nodi sut y gall eraill, gan gynnwys busnesau, a chymdeithas ehangach gyfrannu a byddwn yn ceisio sicrhau eu bod yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o'i gyflawni. Mae Gweinidogion Cymru wedi nodi'r egwyddorion y maent am weld gweithgarwch rheoli tir yn cael ei ddiwygio yn unol â nhw ar ôl i'r DU adael y Gymuned yr Undeb Ewropeaidd. Mae cyfnod pontio yn hanfodol er mwyn inni fanteisio ar gyfle sydd ond yn codi unwaith mewn cenhedlaeth i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer coetir. Bydd angen inni allu addasu. Felly, nid ydym wedi cynnwys datganiadau manwl am gamau gweithredu yn y strategaeth ei hun.

Mae'r datganiad polisi clir a nodir yma ar gyfer ein coed a'n coetiroedd, yn adeiladu ar ein profiad blaenorol ac yn cynnig glasbrint clir ar gyfer asesu llwyddiant systemau cyflawni yn y dyfodol. Mae'r gyfres o ddatganiadau sefyllfa bolisi sy'n sail i *Coetiroedd i Gymru* yn dal i fod yn berthnasol iawn a byddant yn parhau i gael eu defnyddio a'u datblygu.

Rydym hefyd yn sylweddoli ein bod ar derfyn eithaf ein gwybodaeth wyddonol a thechnegol o hyd ar gyfer rhai o'r materion y mae angen mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, mae angen inni wybod mwy am y ffordd orau o reoli ein coetiroedd nid yn unig er mwyn ymdrin â hinsawdd sy'n newid ond hefyd er mwyn cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd. Mae angen inni feithrin gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau ecosystemau a ddarperir gan wahanol opsiynau ar gyfer defnyddio tir a rheoli coetir. Yn fwy penodol, mae angen inni hefyd wybod ar ba raddfa y mae cynyddu amrywiaeth ein coetiroedd yn dod yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r canlyniadau rydym am eu gweld. Am bob un o'r rhesymau hyn a mwy, byddwn yn parhau i ddatblygu ein sail dystiolaeth a'n prosesau gweithredu technegol er mwyn sicrhau y bydd yr opsiynau penodol a ddewisir gennym yn bodloni ein gofynion orau. Bydd angen cyfuniad o ymchwil wyddonol a chymhwysol, yn ogystal â gwaith datblygu technegol, er mwyn parhau â'r arloesi ym maes arfer coedwigaeth yng Nghymru, sydd wedi nodweddu'r 100 mlynedd diwethaf.

Yn 2013, cymerodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb am gyflwyno rheoliadau coedwigaeth a rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Cymerodd Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol am ddatblygu polisi a darparu cymhellion. Mae'r trefniadau hyn yn wynebu prawf newydd sylweddol wrth i'r DU baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n debygol y bydd heriau a chyfleoedd yn y dyfodol i goedwigaeth yng Nghymru ac

mae angen i'n cynlluniau cyflawni fod yn ddigon hyblyg i ymateb i'r rhain. Dyna pam mae ein gwaith i ddiweddarau'r strategaeth wedi canolbwyntio'n gryf ar y canlyniadau yr ydym am eu gweld yn hytrach na'r ffordd o'u cyflawni.

Rydym yn disgwyl y bydd angen newid ein cyfuniad presennol o gymhellion, gweithgarwch rheoleiddio a chynghor, a gwaith partneriaethau i wireddu ein huchelgeisiau. Mae'n debygol y bydd cyfnod pontio ac efallai y bydd cryn ansicrwydd ynglŷn â chyflawni'r strategaeth. Yn y sefyllfa newidiol iawn hon, bydd cyflawni ein huchelgeis iawn ar gyfer *Coetiroedd i Gymru* yn gofyn am gyd-ymdrech ehangach ond bydd hefyd yn gofyn am feddwl arloesol a beiddgar i ddatblygu partneriaethau cyflawni llwyddiannus.

Gwyddom y bydd rhai o'r uchelgeisiau a nodwyd gennym yn gofyn am newid y ffordd y rheolir tir yng Nghymru yn sylweddol. Rydym yn disgwyl i'r newidiadau gwleidyddol ac economaidd ehangach rydym bellach yn eu hwynebu arwain at bwysau newydd sy'n ysgogi newid yn yr amgylchedd naturiol. Rhaid inni fanteisio ar y pwysau hyn er mwyn inni sicrhau'r newidiadau er gwell rydym am eu gweld. Rhaid inni hefyd fod yn ymwybodol nad yw newid bob amser yn cael ei groesawu ac y bydd llawer yn ei ystyried yn fygythiad. Rhaid inni fod yn sensitif i'r pryderon hyn a bod yn ymwybodol o'r gallu sydd gennym gyda'n gilydd i ymdopi.

Bydd yn ein helpu i reoli newid os oes gweledigaeth glir ar gyfer Coetiroedd yng Nghymru ac ymdeimlad o gyfeiriad i lywio llunwyr polisïau ac eraill. Yn y strategaeth ddiwygiedig hon rydym wedi nodi canlyniadau clir. Bydd angen inni gael y canlynol:

- **Gwaith rheoleiddio da** – rhoi hyblygrwydd i reoli a llywio newidiadau i goetiroedd, p'un a yw hyn yn golygu creu coetir newydd neu reoli coetir sy'n bodoli eisoes.

- **Cymhellion clir** – gwneud defnydd da o arian cyhoeddus prin a chreu lle i fuddsoddiad preifat sydd hefyd yn sicrhau manteision i'r cyhoedd.
- **Cynghor a chanllawiau sy'n seiliedig ar wybodaeth dda** – o amrywiaeth o ffynonellau, yn seiliedig ar y wyddoniaeth a'r datblygiadau arloesol gorau sydd ar gael ar gyfer coed, coetiroedd a choedwigoedd, ar gyfer cynnyrch coedwigoedd a'r diwydiant coedwigaeth ac ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan goed, coetiroedd a choedwigoedd.

Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu a'n hymdrechion tymor hwy i gyflawni'r canlyniadau a nodir yn y strategaeth hon ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt. Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, mae'r canlyniadau hyn yn dibynnu ar ei gilydd ac mewn llawer o achosion bydd camau gweithredu unigol yn cyfrannu at fwy nag un canlyniad. Byddwn yn adeiladu ar ein cyfres bresennol o ddangosyddion ac yn eu cysylltu â'r Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol a nodwyd gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf Llesiant.

Rhestr Termiau

Addasu: cymryd camau i leihau'r perygl o niwed o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, ee gwneud coed yn fwy parod i wrthsefyll plâu a gwyntoedd, creu rhwydweithiau coetiroedd, defnyddio coetiroedd i reoli llifogydd.

Bioamrywiaeth: yr amrywiaeth o ecosystemau ac organeddau byw (rhywogaethau), gan gynnwys amrywiadau genetig mewn rhywogaethau.

Bondocio: system reoli sy'n seiliedig ar aildyfu drwy dyfiant newydd o fonion a dorrwyd (cadeiriau). Defnyddir yr un bonyn drwy nifer o gylchoedd torri a thyfiant newydd. Mae bondocio yn enghraifft o system goedamaeth fach ei heffaith.

Celli: is-adran ar wahân mewn coetir, sydd â rhywogaethau cymharol unfurf o ran cyfansoddiad, oedran a chyflwr; dylid ei hystyried yn uned homogenaidd at ddibenion rheoli.

Coedamaeth: technegau trin ac aildyfu coetiroedd, a chynaeafu eu cynnyrch ffisegol.

Coeden hynafol: coeden sydd, oherwydd ei hoedran, ei maint neu ei chyflwr, o werth eithriadol yn ddiwylliannol, yn y dirwedd neu i fywyd gwyllt.

Coedlan cylchdro byr: coedlan a dyfir fel cnwd coediog lluosflwydd hirdymor ac sy'n cael ei chynaeafu fel rheol bob 3 blynedd. Mae tyfu coedlan helyg cylchdro byr yn debycach i ddulliau cynaeafu amaethyddol nag i goedwigaeth.

Coedlan gyda choed uncyff: coedlan yn cynnwys coed gwasgaredig sy'n deillio o eginblanhigion neu o'r goedlan, sy'n cael eu tyfu ar gylchdro hir er mwyn cynhyrchu coed mwy a thyfu eginblanhigion newydd i gymryd lle'r hen fonion.

Coedwigaeth cylchdro byr: tyfu coed sy'n tyfu'n gyflym am 8-20 mlynedd, yn aml gyda'r nod o gynhyrchu coed tanwydd. Mae'r coed yn aml yn cael eu bondocio.

Coedwigaeth gorchudd di-dor: systemau coedamaeth lle cedwir canopi'r goedwig ar un neu ragor o lefelau heb lwyrgwmpo. Mae coedwigaeth gorchudd di-dor yn enghraifft o system goedamaeth fach ei heffaith.

Coedwigoedd: ardaloedd mawr ar y cyfan, lle mae'r tir wedi'i orchuddio'n bennaf â choed.

Coetir brodorol: coedwigoedd sy'n cynnwys rhywogaethau brodorol lleol, yn bennaf neu'n gyfan gwbl.

Coetir brodorol newydd: coetir sydd newydd gael ei sefydlu, lle mae o leiaf 80% o'r coed yn rhywogaethau brodorol. Gall coetir brodorol newydd gael ei greu drwy aildyfiant naturiol, cytrefu neu blannu ar dir sydd heb goed arno'n barod.

Coetir: tir lle mae'r canopi coed yn dylanwadu'n gryf ar ei gyflwr ecolegol, neu lle bydd yn gwneud hynny yn y dyfodol. O ran ystadegau gorchudd tir (yn y DU), diffinnir coetir ar hyn o bryd fel tir coediog lle byddai'r coed aeddfed yn gorchuddio mwy nag 20% o'r arwynebedd. Yn gyffredinol, gelwir lleiniau mawr yn goedwigoedd. Defnyddir nifer o wahanol dermau i ddisgrifio unedau llai, megis coetiroedd, coedydd, coedlannau a lleiniau cysgodi. Nid oes maint gofynnol wedi'i ragnodi ar gyfer coetir.

Coetir cymysg: gellir cael cyfuniadau ar nifer o raddfeydd gwahanol. Cyfuniadau clòs lle ceir cellïoedd sy'n cynnwys rhywogaethau amrywiol o goed. Plannu mewn grŵp lle mae'r coed yn amrywio o ran maint, gofynion a chymhlethdod. Mae hyn hefyd yn cynnwys Cyfuniadau llinell. Maent yn eithaf cyffredin yn draddodiadol yng nghoedwigaeth Prydain, ac yn aml iawn defnyddir un rhywogaeth i feithrin y prif gnwd. Cyfuniadau ar raddfa tirwedd gyda rhywogaethau unigol wedi'u plannu mewn cellïoedd ond yn creu matrices o rywogaethau cymysg ar raddfa tirwedd. Mae lleihau maint ardaloedd sy'n cael eu llwyrgrwmpo hefyd yn creu tirwedd fwy cymysg o ran oedran. Mae lle i gyfuniadau o bob math, ac mae gan bob math ei fanteision a'i anfanteision wrth gyflawni amcanion, ac o ran ei effaith ar y math o system reoli sydd ei hangen a'i dwysedd a'i goblygiadau gweithredol, yn enwedig lle mae cynaeafu coed yn rheolaidd yn un o'r amcanion. Rhagdybir yn gyffredinol bod cyfuniadau mwy clòs yn well mewn coetiroedd isel, mwy ffrwythlon, a bod strwythurau ac amrywiaeth rhywogaethau symlach yn well mewn coedwigoedd ar dir uwch sy'n llai ffrwythlon.

Coetir hynafol: safleoedd sydd wedi bod yn goediog yn ddi-dor ers cyn 1600AD.

Coetir lled-naturiol: nid oes coedwigoedd gwirioneddol 'naturiol' ar ôl yn y DU. Mae gan goetiroedd lled-naturiol gellïoedd cyfredol sydd wedi'u ffurfio gan mwyaf o goed a llwyni sy'n frodorol i'r safle ac nad yw'n amlwg eu bod wedi'u plannu. Ymddengys felly eu bod wedi tyfu'n bennaf o aildyfiant naturiol neu o dyfiant bondocio/brigdocio o blanhigion unigol sydd wedi aildyfu'n naturiol.

Coetir lled-naturiol hynafol: coetir hynafol lle mae'r coed a'r llwyni'n lled-naturiol. Yn gyffredinol, dyma'r coetiroedd pwysicaf ar gyfer bioamrywiaeth.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC): fe'i sefydlwyd yn 2013, gan ddwyn swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth ynghyd. Mewn perthynas â choetir, mae gan CNC gyfrifoldebau sy'n cynnwys cyflwyno rheoliadau coedwigoedd, rheoli'r 38% o'r coedwigoedd yng Nghymru sy'n eiddo i'r Cynulliad a hyrwyddo buddiannau coedwigaeth.

Cymuned: grŵp o bobl sydd â rhywbeth yn gyffredin, boed yn fan neu'n ddiddordeb.

Cynaliadwyedd: yn gyffredinol, y gallu i gynnal proses neu gyflwr penodol am gyfnod amhenodol. Mae'r cysyniad o gynaliadwyedd yn berthnasol i bob agwedd ar fywyd ar y Ddaear ac fe'i diffinnir yn aml mewn cyd-destunau ecolegol, cymdeithasol ac economaidd.

Cynefinoedd agored â blaenoriaeth: cynefinoedd y nodwyd eu bod dan fygythiad ac sydd wedi'u rhestru o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'r rhain yn cynnwys gweundir uchel, gorgorsydd, glaswelltir sych asidig yr iseldir, dolydd yr iseldir a glaswelltir calchaid yr iseldir.

Cynefinoedd coetir â blaenoriaeth/ cynefinoedd coetir brodorol â blaenoriaeth: cynefinoedd coetir y nodwyd eu bod dan fygythiad ac sydd wedi'u rhestru o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae pum math yng Nghymru: coetir derw'r ucheldir, coetir ynn cymysg yr ucheldir, coetir gwlyb, coetir ffawydd ac yw yr iseldir a choetir llydanddail cymysg yr iseldir.

Dal a storio carbon: llif carbon i gronfeydd daearol neu forol. Mae dal a storio biolegol yn cynnwys tynnu carbon deuocsid o'r atmosffer yn uniongyrchol drwy newid defnydd tir, coedwigo, ailgoedwigo, storio carbon mewn safleoedd tirlenwi ac arferion ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth sy'n ychwanegu at y carbon mewn pridd.

Datgarboneiddio: yw'r broses o addasu ein ffordd o fyw fel pobl er mwyn inni allu lleihau'r carbon ffosil a allyrrir i'r atmosffer. Gellir gwneud hyn drwy osgoi allyriadau, drwy ddefnyddio ffynonellau ynni amgen neu leihau allyriadau drwy ddefnyddio deunyddiau sy'n defnyddio llai o ynni neu gymryd camau megis plannu coed i ddal a storio carbon o'r atmosffer. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod allyriadau net, yn 2050, o leiaf 80% yn llai na'r llinell sylfaen sydd wedi'i phennu mewn deddfwriaeth.

Datgoedwigo: creu tir agored parhaol sy'n lleihau arwynebedd y coetir. (Nid yw ailgynllunio ardaloedd y tu mewn i goetir i fodloni gofynion Safon Coedwigaeth y DU yn cael ei ystyried yn ddatgoedwigo yng nghyd-destun y strategaeth hon).

Ecosystem: rhyngweithiad cymunedau o blanhigion ac anifeiliaid (gan gynnwys pobl) gyda'i gilydd a'r amgylchedd difwyd. Mae ecosystemau cytbwys yn sefydlog pan ystyrir nhw yn yr hirdymor (cannoedd o flynyddoedd yn achos coetiroedd).

Gwasanaethau ecosystemau: mae dynolryw yn cael budd o nifer o adnoddau a phrosesau a gyflenwir gan ecosystemau naturiol. Cyfeirir at y manteision hyn, gyda'i gilydd, fel gwasanaethau ecosystemau. Mae gwasanaethau ecosystemau yn wahanol i gynnyrch a gweithrediadau ecosystem eraill gan fod galw dynol am yr asedau naturiol hyn. Mae llawer o astudiaethau wedi ceisio mesur gwerth economaidd y gwasanaethau hyn.

Maent yn cynnwys:

- **Gwasanaethau cyflenwi** – megis bwyd, dŵr a choed
- **Gwasanaethau diwylliannol** – megis darparu manteision sy'n gysylltiedig â hamdden, iechyd, estheteg ac elfennau ysbrydol

- **Gwasanaethau rheoleiddio** – megis diogelu adnoddau dŵr a phridd mewn dalgylchoedd; helpu i adennill tir halogedig; darparu lloches, cysgod a lle oerach mewn trefi, a chysgod rhag gwynt (leiniau cysgodi) ar dir amaethyddol
- **Gwasanaethau cefnogi** – megis swm net y carbon sy'n cael ei ddal a'i storio (cloi carbon atmosfferig), ffurfio pridd a ffotosynthesis.

Gwerth Ychwanegol Crynswth: y dull cydnabyddedig presennol o asesu'r economi a'r gyfran a gyfrennir tuag ati gan wahanol ddiwydiannau (a adwaenid gynt fel CMC – Cynnyrch Mewnwladol Crynswth).

Lleiniau cysgodi: un neu ragor o resi o goed a blennir i ddarparu cysgod rhag y gwynt ac amddiffyniad rhag erydiad pridd. Gallant hefyd weithredu fel sgriniau gweledol, cynefinoedd bywyd gwyllt, neu ffynhonnell cynnyrch coed.

Lliniaru: ymyrryd er mwyn lleihau newid yn yr hinsawdd, ee mwy o ddefnydd o goed fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy neu i storio carbon.

Llwyrgrwympo: Torri ardal o goetir (os yw o fewn ardal fwy o goetir mae'r ardal gwympo fel rheol yn fwy na 0.25 hectar). Ambell waith gadewir coed gwasgaredig neu glwstwr o goed ar ôl yn yr ardal gwympo.

Newid yn yr hinsawdd: newidiadau naturiol a newidiadau a achosir gan ddyn yn 'nhywydd cyffredinol' rhanbarth. Sylwer: arferid defnyddio 'cynhesu byd-eang' yn gyfystyr â 'newid yn yr hinsawdd', ond prin iawn yw'r defnydd o'r term hwn erbyn hyn.

Ôl troed carbon: cynrychioliad o effaith gweithgareddau dyn ar yr hinsawdd o ran y nwyon tŷ gwydr net a gynhyrchir, sy'n cael ei fesur fel rheol fel tunelli o garbon ar ffurf carbon deuocsid cyfwerth.

Planhigfa: y coetir lle mae'r coed presennol wedi'u plannu. Mae hyn yn aml yn cynnwys coed sy'n aildyfu'n naturiol hefyd. Mae'n cynnwys cyn-goetiroedd lled-naturiol a ailstociwyd drwy blannu.

Potensial cynhyrchu: faint o goed y gellid eu cynaeafu'n gynaliadwy o'r coetir. Pennir y cyfanswm gan ffactorau megis pa mor gyflym y mae'r coed yn tyfu ar y safle, ymarferoldeb cynaeafu'r coed, ac amcanion eraill y safle megis bioamrywiaeth, cadwraeth a hamdden.

Rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy: 'Stiwardiaeth a'r defnydd o goedwigoedd a thir coedwigoedd mewn ffordd, ac ar gyfradd, sy'n cynnal eu bioamrywiaeth, cynhyrchiant, gallu i adfywio, bywiogrwydd a photensial i gyflawni, yn awr ac yn y dyfodol, swyddogaethau ecolegol, economaidd a chymdeithasol perthnasol, ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang, ac nad yw'n achosi difrod i ecosystemau eraill'. (Yr Ail Gynhadledd Weinidogol er Diogelu Coedwigoedd yn Ewrop, Helsinki; 1993).

Rhywogaeth â blaenoriaeth/rhywogaeth coetir â blaenoriaeth: rhywogaeth y nodwyd eu bod dan fygythiad ac sydd wedi'i rhestru o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae rhywogaethau coetir â blaenoriaeth yng Nghymru yn cynnwys y gwybedog mannog, telor y coed, y rugiar ddu, coch y berllan, y wiwer goch, y pathew a nifer o rywogaethau o ystlumod.

Rhywogaeth frodorol: un a ddaeth i Gymru heb gymorth pobl yn ystod cytrefu ôl-rewlifol.

Safleoedd Coetir Hynafol Planedig: cyn-Goetir Lled-naturiol Hynafol a ailblannwyd yn gyfan gwbl fwy neu lai â rhywogaethau brodorol neu estron ac y mae ei werth ecolegol wedi dirywio. Mae rhai safleoedd wedi colli mwy o foamrywiaeth na'i gilydd, ac mae hynny'n dibynnu ar y rhywogaethau a blannwyd a'r dulliau rheoli dilynol.

Safleoedd coetir o bwysigrwydd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol: mae'r safleoedd a ddiogelir yn rhyngwladol yn cynnwys safleoedd Natura 2000 a ddiogelir dan Gyfarwydddebau Cynefinoedd ac Adar y CE (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)) a safleoedd a ddiogelir dan Gonfensiwn RAMSAR ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol. Mae'r safleoedd a ddiogelir yn genedlaethol yn cynnwys Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Dynodir safleoedd o ddiddordeb cadwraethol lleol gan Awdurdodau Lleol ac maent yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Cyfeirir atynt fel rheol yng Nghymru fel Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur (SINC), neu Safleoedd Daearegol a Geomorffaid Pwysig Rhanbarthol (RIGS).

Safon Coedwigaeth y DU: ymagwedd llywodraeth y DU at goedwigaeth gynaliadwy. Mae'n nodi'r meini prawf a'r safonau ar gyfer rheoli holl goedwigoedd a choetiroedd y DU yn gynaliadwy.

Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU: Safon ardystio annibynnol er mwyn cadarnhau bod coetir yn cael ei reoli'n gynaliadwy yn y DU. Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU ar hyn o bryd yw elfen ganolog y rhaglen ardystio coedwigoedd a weithredir yn y DU gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd er enghraifft.

System coed cysgodol: torri cyfran o'r coed mewn ardal gan adael rhai coed fel ffynhonnell hadau a chysgod ar gyfer aildyfiant naturiol. Mae'r had goed yn cael eu cludo ymaith yn ddiweddarach.

Systemau coedamaeth bach eu heffaith: systemau coedamaeth sy'n cynnig dewisiadau eraill yn lle llwyrwympo ac sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Maent yn cynnwys amrywiaeth o systemau coedamaeth llai dwys megis detholiad grŵp neu goed cysgodol.

Tarddle ('provenance'): y lleoliad daearyddol lle y casglwyd hadau'r coed. Defnyddir Dynodiad Rhanbarthau Tarddle dan y rheoliadau Deunyddiau Atgenhedlol Coedwigoedd er mwyn helpu meithrinfeydd a thyfwyr i ddewis deunydd addas. Mae'r term yn cael ei gymysgu'n aml â 'tharddiad' ('origin'), sef y ffynhonnell enetig naturiol wreiddiol.

Ynni adnewyddadwy: sy'n cynnwys technolegau di-garbon fel ynni'r haul, ynni dŵr, ynni gwynt a llanw, yn ogystal â ffynonellau tanwydd carbon niwtral fel biomas.

Ysgol y Goedwig: agwedd addysgol arloesol at chwarae a dysgu yn yr awyr agored. Athroniaeth Ysgolion y Goedwig yw annog ac ysbrydoli unigolion o bob oedran drwy brofiadau cadarnhaol rheolaidd yn yr awyr agored. Datblygwyd ac addaswyd Ysgolion y Goedwig ym Mhrydain o'r cysyniad gwreiddiol a weithredwyd yn Sweden yn y 1950au ac a ddatblygwyd mewn gwledydd eraill yn Sgandinafia ac Ewrop.

Ystad Coetir Llywodraeth Cymru:

y coetir a gaffaelwyd yn wreiddiol o dan ddarpariaethau Deddf Coedwigaeth 1967 neu at ddibenion y ddeddf honno, a ddelir gan Weinidogion Cymru ac a roddwyd at wasanaeth CNC, sy'n ei reoli.